



# Y GELLI GANDRYLL

## ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH

Adolygiad mis Medi 2016

**PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Y Cyd-destun Polisi Cynllunio

3. Lleoliad a Chyd-destun

4. Nodweddion Cyffredinol a Chynllun

5. Lleoliad yn y Dirwedd

6. Datblygiadau Hanesyddol ac Archaeoleg

7. Dadansoddiad Gofodol

8. Dadansoddiad o Nodweddion

9. Diffiniad o Ddiddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

10. Ffin yr Ardal Gadwraeth

11. Crynodeb o'r Materion

12. Cynnwys y Gymuned

13. Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

14. Manylion Cyswllt

15. Llyfryddiaeth

Adolygiad mis Medi 2016

## 1. Cyflwyniad

Mae adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i benderfynu, o bryd i'w gilydd, ba rannau o'u hardal sy'n ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol gwarchod neu wella eu cymeriad neu eu golwg, a dynodi'r ardaloedd hyn yn ardaloedd cadwraeth. Mae'r Gelli Gandryll yn un o bedair ardal gadwraeth ddynodedig yn y Parc Cenedlaethol.

Mae gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd i warchod yr ardaloedd hyn rhag gwaith datblygu a fyddai'n niweidiol i'w cymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig, ac adlewyrchir hyn yn y polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Mae dyletswydd hefyd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn sefydlu p'un a oes angen diwygio'r ffiniau a nodi mesurau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth.

Diben arfarniad ardal gadwraeth yw diffinio nodweddion ardal sy'n ei gwneud yn deilwng o statws ardal gadwraeth. Mae arfarniad clir a chynhwysfawr o gymeriad ardal yn rhoi sail gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygiadau a datblygu mentrau i wella'r ardal. Mae hefyd yn golygu y bydd modd datblygu fframwaith polisi cadarn ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol, y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio a chynigion eraill ar gyfer newid.

Mae'r adroddiad arfarnu presennol a fabwysiadwyd yn dilyn fformat a ddefnyddiwyd yn wreiddiol gan Historic England i roi cyngor ar arfarniadau a'r gwaith o reoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn ystyried gwaith a wnaed gan Cadw ar ddisgrifio nodweddion lleol.

## Ffin yr Ardal Gadwraeth

Un o brif elfennau Arfarniad Ardal Gadwraeth yw adolygu'r ffin er mwyn sicrhau bod yr Ardal Gadwraeth o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol clir o hyd. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried a ddylid ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth.

Mae craidd yr ardal gadwraeth wedi'i leoli o fewn ôl troed y muriau tref o'r 13$^{eg}$ ganrif a oedd, ynghyd â'r castell, yn ffurfio ôl troed y Gelli a welir i raddau helaeth heddiw. Yr ardal o amgylch Eglwys Santes Fair a thwmpath y castell mwnt a beili cyntaf, sydd ill dau yn dyddio o gyfnod cyn y castell a muriau tref diweddarach, yw ffocws yr ardal gadwraeth y tu allan i'r anheddiad caerog gwreiddiol, ynghyd â'r strydoedd a'r gofodau sy'n cysylltu'r ddwy ardal. Caiff y ffiniau dwyreiniol, gogleddol a gorllewinol eu diffinio i raddau helaeth gan gyrsiau dŵr afon Gwy a nant Dulas, sydd wedi gweithredu fel cyfyngiadau ac ymylon cryf i ehangiad neu ymlediad datblygiad y dref ac mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at y ffaith bod lleoliad ac adeiledd ffisegol yr ardal gadwraeth a'i hadeiladau wedi goroesi.

Mae llai o eglurder a chysondeb yn niffiniad ffin ddeheuol yr ardal gadwraeth i'r de o Stryd Rhydychen, lle gwelwyd datblygiad mwy sylweddol ers nodi'r ffin, er bod rhannau o'r ardal hon eisoes y tu allan i'r ardal gadwraeth.


Yn yr adolygiad diwethaf o'r ardal gadwraeth, cydnabuwyd bod Stryd Rhydychen wedi newid yn sylweddol ers dynodi'r ffin. Nodweddion braidd yn dameidiog a geir i ochr ddeheuol y stryd, ac mae prif faes parcio'r dref bellach wedi'i leoli yn union i'r de o Gastell y Gelli, ger canolfan grefftau a chanolfan groeso. Adolygwyd y ffin i beidio â chynnwys y ganolfan grefftau na'r maes parcio, yn ogystal â'r bynglo gyferbyn adeilad y banc.

Cafodd ardal gerllaw ffin de-orllewinol yr ardal gadwraeth ei chynnwys yn yr adolygiad diwethaf. Cafodd ei chynnwys oherwydd ansawdd yr adeiladau, gan fod pedwar ohonynt yn rhestredig a saith wedi'u cynnwys ar y rhestr leol. Ar y cyd, mae'r ardal yn ffurfio mynedfa bwysig i'r dref ac yn

nodi'r ffin rhwng y dref o'r $19^{eg}$ ganrif a ehangwyd yn yr $20^{fed}$ ganrif.

Yn dilyn asesiad o'r ardaloedd o fewn ffin yr ardal gadwraeth a'r ardaloedd o amgylch; ystyrir nad oes angen addasu'r ffin ymhellach ar hyn o bryd.

FFIN ARDAL GADWRAETH Y GELLI GANDRYLL




© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Brecon Beacons National Park Authority Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, Powys, LD3 7HP

© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100019322. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

**Ymgynghoriad**
Mae'r ddogfen hon yn rhan o ymgynghoriad ar yr adolygiad o Ardal Gadwraeth y Gelli Gandryll a'r polisïau a'r cynigion ar gyfer gwella a gwarchod yr ardal. Bu'r adolygiad hwn o'r ardal gadwraeth yn destun ymgynghoriad â grwpiau â diddordeb, sefydliadau arbenigol a thrigolion lleol. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu'n lleol gan sôn am yr adolygiad o'r ardal gadwraeth a'r cyfle i roi sylwadau. Hefyd, ystyriwyd y ddogfen ddiwygiedig gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol er mwyn cael cymeradwyaeth i'w mabwysiadu'n ffurfiol.



*Stryd Lydan 1905, yn edrych i'r de tua Thŵr y Cloc*

## 2. Y Cyd-destun Polisi Cynllunio

Mae sawl dogfen gynllunio berthnasol sy'n ymwneud â'r Gelli Gandryll a'i hamgylchedd adeiledig:

**Diweddariad 2008 Cynllun Gofodol Cymru**: Caiff y Gelli Gandryll ei nodi'n Anheddiad Allweddol o fewn clwstwr daearyddol, sy'n cynnwys Aberhonddu, Crucywel a Thalgarth; mae pwyslais ar gydweithio rhwng cymunedau i gefnogi eu hanghenion eu hunain ac ar hyblygrwydd, entrepreneuriaeth a chynnwys y gymuned wrth bennu twf yn y dyfodol;

**Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol** sy'n nodi'r polisi cyffredinol ar: adeiladau rhestredig; ardaloedd cadwraeth; parciau a gerddi hanesyddol; tirweddau hanesyddol; Henebion Cofrestredig; ac olion archaeolegol.

**Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** - Ers yr arfarniad diwethaf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (Rhagfyr 2013). Mae'r cynllun yn nodi polisïau a chynigion i lywio gwaith datblygu yn y Parc Cenedlaethol rhwng 2007 a 2022. Y polisïau sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig lleol yw Polisi 19 a Pholisi 18.

- Polisi 19 Datblygiad sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth
  Caniateir datblygiad newydd a newidiadau i adeiladau presennol o fewn lleoliad Ardal Gadwraeth neu sy'n effeithio ar leoliad Ardal Gadwraeth dim ond lle y bydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu olwg yr ardal, a lle y mae'r dyluniad, yr holl ddeunyddiau adeiladu, y mesuriadau a'r manylion i gyd yn briodol i'r Ardal Gadwraeth. Caniateir dymchwel yn llwyr neu'n sylweddol unrhyw adeilad neu adeiledd anrhestredig o fewn Ardal Gadwraeth sy'n ddarostyngedig i ganiatâd Ardal Gadwraeth, dim ond lle y ceir y cyfiawnhad cryfaf. Pan fwriedir amnewid adeilad o'r fath, bydd angen llunio contract ailddatblygu cyn rhoi caniatâd ardal gadwraeth.

- Polisi 18
  Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol: Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol, fel y'u hamlinellir ar y rhestr leol, lle na fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar eu golwg arbennig, cyfanrwydd pensaernïol neu osodiad.

- Noda'r Cynllun Datblygu Lleol mai Aberhonddu yw'r Prif Anheddiad Allweddol a bod y Gelli Gandryll yn un o'r aneddiadau allweddol ar gyfer y Rhanbarth (ynghyd â Chrucywel; Pontsenni a Defynnog; a Thalgarth). Mae'r Cynllun yn pennu gweledigaeth 15 mlynedd ar gyfer y dref sy'n cynnwys cydnabod pensaernïaeth hanesyddol y dref a sicrhau bod datblygiadau newydd yn cydweddu ag ansawdd uchel y dreftadaeth adeiledig hanesyddol. Mae'r Cynllun yn nodi materion ac amcanion y bydd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwireddu'r weledigaeth gyffredinol. Un amcan sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal gadwraeth yw parchu 'hunaniaeth unigryw y Gelli Gandryll'. Fodd bynnag, un mater a nodir yw bod y dref yn gyfyngedig iawn o fewn ei ffiniau presennol a'r her yw sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn cynnal cryfder y dref tra'n parchu'r treflun creadigol sydd o bwys hanesyddol, a'i leoliad yn y dirwedd. Mae Polisi K LP Datblygiad Priodol Anheddiad Allweddol yn nodi sut y disgwylir i gynigion datblygu gyfrannu at y Weledigaeth ar gyfer y trefi. Mae'r polisi'n nodi 'Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol gyfrannu'n gadarnhaol at eu gosodiad a gwella ansawdd y dirwedd heb gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol neu fioamrywiaeth yr ardal'.

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys **Map Cynigion** sy'n dangos cynigion manwl ar gyfer y Gelli Gandryll. Mae'r map yn dynodi Ardaloedd Gwerthusiad Archaeolegol, a safleoedd Henebion Cofrestredig fel Castell y Gelli.

**Canllaw Dylunio Blaen Siop Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Mai 2011** - Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar ddylunio blaen siop, gan hyrwyddo dyluniadau o safon uchel a fydd yn helpu i warchod nodweddion traddodiadol ardaloedd manwerthu'r Parc er mwyn sicrhau eu bod yn lleoedd deniadol i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr.

## 3. Lleoliad a Chyd-destun

Saif y Gelli Gandryll wrth droed y Mynyddoedd Duon ar ochr Cymru o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, mewn man lle mae tair hen sir yn cwrdd - Swydd Henffordd i'r dwyrain, Swydd Frycheiniog i'r gorllewin a Sir Faesyfed i'r gogledd, y mae'r ddwy olaf bellach yn rhan o Bowys. Er ei bod gerllaw afon Gwy, fel y mae'r enw yn awgrymu, nant Dulas, ar ochr ddwyreiniol y dref, sy'n llunio'r ffin rhwng Powys, yng Nghymru, a Swydd Henffordd, yn Lloegr.

Fe'i lleolir ar ben gogledd-ddwyreiniol pellaf Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, o dan darren ogleddol y Mynyddoedd Duon sydd tua phum cilomedr o'r dref.

Mae'r anheddiad wrth gyffordd pedair ffordd:

- O'r de-orllewin, mae'r B4350 yn cysylltu ag Aberhonddu, drwy Fronllys;
- O'r gogledd, mae'r B4350 yn cysylltu â Clifford ac yna o'r dwyrain, ar hyd yr A438 i Henffordd;
- O'r gorllewin, mae'r B4351, ar hyd Bridge Street a phont y Gelli, yn cysylltu â Clyro, a'r A438;
- I'r dwyrain ceir cysylltiadau â Cusop ac ar hyd y B4348 i Hardwicke, ac ymlaen i Henffordd.

Tua 1500 yw poblogaeth bresennol y Gelli, sy'n llawer llai na'r 1997 a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 1861, er bod y niferoedd hynny yn byw mewn 302 o aneddiadau yn unig o gymharu â'r ffigur o 730 o gartrefi yn 2001.

Mae'r dref yn enwog am lyfrau ail-law, a cheir 30 o siopau llyfrau yno, ynghyd â'r ŵyl llenyddiaeth a chelfyddydau flynyddol. Yn 2012 dathlodd yr ŵyl chwarter canrif. Mae 'brand' Gŵyl y Gelli bellach yn cwmpasu digwyddiadau mewn tua 15 o leoliadau rhyngwladol eraill ar bum cyfandir er mwyn croesi ffiniau diwylliannol a genres a meithrin y broses o gyfnewid dealltwriaeth, parch a syniadau.

Ynghyd â'r llyfrau a'r llenyddiaeth sy'n denu twristiaid, ceir harddwch naturiol yr ardal a'i thirwedd sy'n cynnig cyfleoedd gwych i gerdded, canŵio, beicio, marchogaeth, pysgota a gwersylla. Mae Llwybr Clawdd Offa, llwybr cerdded cenedlaethol 177 milltir o hyd sy'n dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr fwy neu lai, yn mynd drwy'r dref, er bod Clawdd Offa ei hun tua 8 i 10 milltir i'r dwyrain o'r dref.


Mae'r farchnad wedi bod yn rhan bwysig o'r broses o lunio'r Gelli ers cyfnod cynnar yn ei hanes a cheir marchnad wythnosol ffyniannus o hyd, ar gyfer cynnyrch amaethyddol a da byw yn y mart, yn ogystal â marchnad stryd draddodiadol yng nghanol y dref.




*Marchnad Stryd Lydan tua 1900 (chwith) a heddiw (dde)*

# 4. Nodweddion Cyffredinol a Chynllun


Ceir cysylltiad cynhenid rhwng nodweddion cyffredinol a chynllun y Gelli Gandryll a'i hanes a'i datblygiad.
 Mae pob cyfnod yn ei hanes wedi gadael ei ôl ac mae'n amlwg yng nghynllun y strydoedd, gofodau, llefydd ac adeiladau heddiw.





*Ffigur 4.1 Y Gelli Gandryll heddiw, yn dangos ffin yr ardal gadwraeth, adeiladau rhestredig ac adeiladau rhestredig lleol drafft*

- Mae'r castell yn bresenoldeb amlwg o hyd yn lleoliad cyffredinol y dref ac fel nodwedd ffisegol a gweledol yn y treflun;
- Gellir gweld bod maint a lleoliad y muriau a'r pyrth a oedd yn gwarchod yr ardal drwy'r Oesoedd Canol yn ffactor pwysig ym mhatrymau a chynlluniau'r strydoedd a'r mannau cyhoeddus lle mae llawer o nodweddion y cyfnod Canoloesol wedi goroesi;
- Mae'r lleiniau bwrdeisi â blaenau cul a ddefnyddiwyd i rannu'r dref ganoloesol yn barseli dal yn amlwg iawn yn y cynllun heddiw.

Er mwyn helpu i ddadansoddi a deall nodweddion y dref, mae'n ddefnyddiol dangos y cynllun mewn amrywiaeth o ffyrdd, sy'n amlygu elfennau allweddol penodol sy'n adlewyrchu ei datblygiad hanesyddol a'r ffordd y mae'r meini prawf hyn yn amlwg yn y cynllun heddiw.





*Ffigurau 4.2 Cynllun Ffurf / Tir (chwith) a 4.3 Diagram o Gynllun Rhwydwaith Symudiadau (dde)*

Mae'r Cynllun Ffurf / Tir, ffigur 4.2, yn dangos ôl troed datblygiadau adeiledig gan amlygu craidd cywasgedig y dref a welir yn glir rhwng talar y muriau terfyn o'r 13eg ganrif (dangosir eu haliniad ar y llinell werdd). Yn gyffredinol, mae'r strydoedd a'r gofodau yn y dref wedi'u diffinio'n glir iawn gan ffurf a chasgliad cyffredinol yr adeiladau sy'n eu hwynebu, sy'n cyfuno nodweddion a rhinweddau eu maint unigol, deunyddiau a manylion â ffurf gyfunol sy'n amgylchynu’r ardaloedd cyhoeddus mewn modd hynod unedig ac integredig. Mae'r ardal ganolog ddwys hynod grynodedig yn gwrthgyferbynnu â threfniant mwy tameidiog a rhydd y datblygiadau o'r 20fed ganrif y tu hwnt i'r ardal gadwraeth i'r de. Mae'r adeiladau cyflogaeth ag ôl troed mwy hefyd yn amlwg iawn ar ymylon gogleddol a deheuol y cynllun. Mae twf llinol y dref i gyfeiriad y de-orllewin, ynghyd â nodweddion naturiol cyfyngol afon Gwy a nant Dulas, wedi creu gwrthgyferbyniad amlwg iawn rhwng canol trefol y dref hanesyddol a'r ardaloedd gwledig y tu hwnt.


I'r de-orllewin o ganol y dref, mae Eglwys Santes Fair yn ganolbwynt i grynodiad eilaidd a llai o ddatblygiadau sy'n debycach i bentref, a ddylanwadir gan fannau gwyrdd a thirlun y fynwent, twmpath y castell a nant Logon.

Mae'r Diagram o'r Cynllun Rhwydwaith Symudiadau, ffigur 4.3, yn dangos mai'r muriau terfyn o'r 13eg ganrif (llinell werdd), oedd y prif ddylanwad ar gynllun y strydoedd, sydd wedi goroesi hyd heddiw. Mae'r cynllun yn dangos y prif ardaloedd cyhoeddus - strydoedd a gofodau - yn y dref ac mae'n dangos union gyfeiriad symudiad, mynediad ac athreiddedd yng nghanol y dref gyda'r gofodau mwy ar Stryd Lydan yn benodol a'r gofod i'r gogledd o'r castell a arferai fod ac sy'n dal i fod yn lleoliad i farchnadoedd, ymgynulliadau a digwyddiadau rheolaidd.

**Mapiau Hanesyddol**


Mae Map y Degwm 1847 yn dangos patrwm strydoedd yn yr ardal gadwraeth bresennol sydd bron yn union fel y patrwm a welir heddiw. Ymysg y newidiadau sylweddol i gynllun y dref mae'r caeau agored o fewn ardal gaerog wreiddiol y dref, a anodwyd yn 497 a 500 (i'r naill ochr a'r llall o Heol y Dŵr) a 502 (ar ochr orllewinol Belmont Road), a ddatblygwyd ers hynny i gynnwys tai. Mae cae 169 bellach yn cynnwys y farchnad gwartheg. Mae'n ymddangos nad yw maint cyffredinol yr anheddiad wedi newid rhyw lawer rhwng tref furiog y 13$^{eg}$ ganrif a'r cynllun a welwyd yng nghanol y 19$^{eg}$ ganrif.

Ymysg y gwahaniaethau nodedig eraill a welir erbyn cynllun heddiw mae: yr adeilad siâp 'L' ar ben gogledd-ddwyreiniol Stryd y Castell, sydd bellach wedi'i ddymchwel i greu gofod agored y farchnad; dim llawer o ddatblygiadau ar hyd Stryd Rhydychen na'r rhan fwyaf o Heol y Dŵr;




*Ffigur 4.4 Rhan o Fap y Degwm 1847 (wedi'i ailgyfeirio i fod yn gyson â'r mapiau eraill)*

Mae'r Cynllun Arolwg Ordnans o 1927, (a gyhoeddwyd yn 1929) yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r adeiladau unigol hynny a gafodd eu dymchwel yn y dref yn ystod y ganrif ddiwethaf ac ardaloedd a oedd heb eu datblygu sydd wedi cael eu datblygu bellach. Gellir gweld llinell y rheilffordd ar lan ddwyreiniol afon Gwy yn glir hefyd.




Ffigur 4.5 Map Arolwg Ordnans 1929



*Stryd y Castell 1930*

## 5. Lleoliad yn y Dirwedd

Saif y Gelli Gandryll ar lan ddwyreiniol afon Gwy sy'n ymdroelli drwy'r gorlifdir ar waelod Dyffryn Gwy. Mae'r afon wedi'i chategoreiddio yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae glan yr afon ar oleddf serth o tua 75mm uwchlaw'r Seilnod Ordnans ar lefel y dŵr, i fyny i graidd y dref, lle mae'r castell ar y tir uchaf tua 95m uwchlaw'r Seilnod Ordnans. Y naill ochr i'r gorlifdir, mae'r tir yn codi'n araf i ddechrau, cyn mynd yn fwy serth gyda dyffrynnoedd rhychog iawn sy'n rhedeg i lawr o darren ogleddol y Mynyddoedd Duon, y mae un ohonynt, nant Dulas, yn ffurfio terfyn dwyreiniol y dref. Mae Penybegwn sydd 677m uwchlaw'r Seilnod Ordnans, tua 5.5km i'r de, ac mae'r ucheldiroedd hyn yn rhoi presenoldeb a lleoliad amlwg a deniadol i'r dref.

Mae Asesiad Cymeriad y Dirwedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Awst 2012) (Saesneg yn unig) yn categoreiddio'r ardal yn Ardal Cymeriad Tirwedd 14, godre bryniau Dyffryn Gwy, a math tirwedd cyffredinol *Iseldir*

Mae'r disgrifiad cryno yn yr asesiad yn nodi:

*A series of ridges run down from the Black Mountains towards the Wye Valley, creating a series of narrow, enclosed valleys which gradually broaden out. These valleys form the basis of a strongly agricultural landscape, visually dominated by the northern scarp of the Black Mountains, with farms nestling at the heads of valleys. It is a well-wooded landscape with ancient woodlands on valley sides and alongside streams, as well as some conifer plantations. The tops of the ridges support heath habitats, and many contain prehistoric monuments. Along the northern edge of the LCA are a series of nucleated settlements (Hay-on-Wye being the largest).*



*Yr olygfa tuag at y Gelli o'r de. Mae'r llystyfiant yng Nghastell y Gelli yn rhan bwysig o leoliad y castell a'r dref yn gyffredinol. Gellir gweld y maes parcio cyhoeddus ar ymyl yr anheddiad.*

Mae olion amlwg hen gaeau agored maenor y Gelli i'w gweld o hyd ar dir mwy gwastad i'r gorllewin a'r tir sy'n goleddfu i'r de o ganol y dref. Mae'r llain-gaeau i'r de o'r dref yn arbennig o nodweddiadol, rhwng Clay Cottage a Bryn Teg, sy'n cynrychioli clostir o hen lain-gaeau canoloesol.

Ar rai o'r caeau yma, yn ogystal â rhai sy'n ffinio'n uniongyrchol â ffiniau deheuol a gorllewinol y dref, ceir olion tirwedd cefnen a rhych, sy'n cynrychioli llain-gaeau agored canoloesol.

Mae rhannau o'r dramffordd ceffyl rhwng y Gelli ac Aberhonddu a adeiladwyd yn 1816 yn dal i'w gweld yn yr ardal, yn bennaf cerlan 400m o hyd wedi'i thorri i ochr glan yr afon yn The Warren, i'r gorllewin o'r Gelli. Cafodd cryn dipyn hen gwrs y dramffordd ei ddisodli gan Reilffordd y Gelli, Henffordd ac Aberhonddu yn 1862, a gellir gweld ei chwrs o hyd mewn mannau.

Mae mannau agored a thirwedd yn elfennau pwysig iawn o nodweddion y dref a'r ardal cadwraeth, yn cynnwys:

- Tir y castell;
- Mynwent Santes Fair;
- Twmpath a lleoliad y castell mwnt a beili;
- Llwybr afon Gwy / Bailey
- Nant Dulas;
- Nant Login;
- Muriau'r dref a'r lleoliad ar ben gogledd-ddwyreiniol yr anheddiad.









*Mannau agored pwysig yn yr ardal gadwraeth. Uchaf o'r chwith: Castell y Gelli o Stryd Rhydychen; llwybr afon Gwy; a thwmpath y castell mwnt a beili. Gwaelod o'r chwith: arglawdd muriau'r dref ar ochr ogledd-ddwyreiniol yr anheddiad; yr olygfa dros nant Logon o'r twmpath tuag at leoliad yn y dirwedd Eglwys Santes Fair; ac Eglwys a mynwent Santes Fair.*

Ar wahân i'r ardaloedd hyn, yn y rhan fwyaf o'r mannau cyhoeddus yn y dref, nid oes coed wedi'u plannu, ac eithrio Stryd Lydan yn bennaf, er nad yw hyn yn wendid y strydoedd cul, ond yn hytrach o ganlyniad iddynt. Yn gyffredinol, mae llinell yr adeiladau yn dynn ar hyd ymyl gefn y palmant a'r strydoedd a'r gofodau yn y dref a ddefnyddir at ddibenion manwerthu, marchnadoedd, digwyddiadau ac ati. Un o nodweddion pwysig y dref yw'r gwrthgyferbyniad rhwng yr ardaloedd tirwedd a restrir uchod a ffurf drefol gyffredinol y dref, a amlygir yn y modd y mae'r ddwy elfen yn cyfochri.




*Ffigur 5.1 Ardaloedd o dirwedd a mannau agored yn y Gelli Gandryll a'r cyffiniau*

Mae'r topograffi, lleoliad yn y dirwedd, patrwm y strydoedd, tirnodau a chanolbwyntiau yn y dref a'r cyffiniau yn creu dilyniant cymhleth o olygfeydd a fistâu yn yr ardal gadwraeth, tuag ati ac ohoni. Mae'n werth chweil archwilio'r llwybrau dynesu gwahanol at y dref a'r profiadau cyrraedd gwahanol a gynigir gan bob un.

**O'r de**, mae'r topograffi a'r datblygiadau mwy diweddar yn y dref, yn atal golygfeydd hirach tuag at y castell a'r craidd canoloesol a datblygiad modern ag ôl troed mawr Parc Busnes Dyffryn Gwy sy'n ffurfio'r 'porth' cyntaf i'r dref. Mae datblygiadau hirgul o'r 20fed ganrif ar hyd Heol Aberhonddu yn dwysáu'n raddol, ond ni cheir gwir ymdeimlad o 'gyrraedd' canol y dref nes i rywun droi'r gornel ar ben deheuol Stryd yr Eglwys a mynd i fyny'r rhiw tuag at Westy'r Swan.

Wrth ddynesu **o'r gorllewin** ceir gwrthgyferbyniad llawer mwy sydyn a chlir o'r ardal wledig i'r ardal drefol, diolch i afon Gwy a'r ffaith nad oes datblygiadau ar ochr orllewinol yr afon. Mae'r topograffi yn cynnig golygfeydd godidog tuag at y dref ac mae'r castell yn amlwg iawn ac wedi'i ddyrchafu gan gefnlen y Mynyddoedd Duon. Wrth groesi'r bont, mae'r llystyfiant dwys a sylweddol ar hyd glan yr afon yn lliniaru effaith y datblygiadau adeiledig, ac wrth gyrraedd Stryd y Bont ac, yn fuan wedyn, y gyffordd â Stryd Lydan, ceir newid sydyn o gefn gwlad i ganol tref hynod ddatblygedig.



*Mae'r Parc Cenedlaethol a llethrau isaf y Mynyddoedd Duon yn gefnlen i'r olygfa o'r Gelli o'r gorllewin*

**O'r dwyrain**, ceir golygfeydd mwy agored ar draws Dyffryn Gwy, gyda datblygiadau dwysedd isel yn y blaendir wedi'u lleoli ar ymyl feddal yr anheddiad sydd wedi'i thirlunio. Mae'r nodweddion cyrion trefol / gwledig dwysedd isel yn parhau hyd at fan croesi nant Dulas, gyda Stryd Rhydychen yn dringo i fyny'r rhiw i'r gyffordd â Heol y Dŵr. Er mai Heol y Dŵr fyddai wedi ffurfio'r porth dwyreiniol i'r dref gaerog, mae'r hierarchaeth ffordd bresennol yn gwyro i'r chwith er mwyn mynd o amgylch cyrion tir y castell. Mae'r datblygiad tameidiog ar ochr ddeheuol Stryd Rhydychen yn cynnig golygfeydd allan i'r dirwedd ehangach. Dim ond wrth gyrraedd y gyffordd â Stryd yr Eglwys / Stryd y Castell y ceir ymdeimlad o gyrraedd canol y dref.

Mae'r ffordd ddynesu **o'r gogledd** ar hyd y gorlifdir isel sy'n rhedeg yn gyfochrog ag afon Gwy. Fel gyda'r ffordd ddynesu o'r de, y datblygiad cyntaf a welir yw parc busnes a chyfres

o siediau diwydiant ysgafn, eiddo masnachol a siop fwyd y Co-op a'r maes parcio sydd ar y tir gwastad rhwng y ffordd a'r afon. Mae'r llystyfiant a'r topograffi ond yn cynnig golygfeydd tameidiog i'r tir uwch a datblygiadau canol y dref. Mae man croesi nant Dulas yn nodi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn ogystal â dechrau'r ardal gadwraeth. Fodd bynnag, mae'r natur agored yn parhau gyda golygfeydd ar draws tir agored, sy'n codi i'r chwith, ac yn arwain at y llystyfiant sy'n nodi aliniad hen fur y dref. Hyd yn oed ar ôl mynd heibio safle porth Ny Port, mae'r caeau agored ar ochr ddwyreiniol Newport Street yn cynnal lleoliad yn y dirwedd er ei fod mewn cyd-destun mwy trefol yn gyffredinol. Nid tan i rywun fynd heibio'r gyffordd â Heol y Dŵr a chyrraedd Stryd Lydan y bydd yr adeiladu'n cau'n dynnach am y stryd ac yn ffurfio gwasgfa a 'phorth' canfyddedig i ganol y dref.



*Yr olygfa i'r gogledd o Gastell y Gelli, dros Stryd y Castell ac i Ddyffryn Gwy y tu hwnt*

Yng **nghraidd y dref** ei hun, mae'r patrwm cain o strydoedd byr ag aliniad sy'n newid yn aml, yn arwain, yn gyffredinol, at olygfeydd byr, sy'n diweddu mewn adeilad, ac sy'n newid yn gyson wrth i rywun symud drwy'r ardal. Mae'r prif adeiladau mwy amlwg, fel y castell, tŵr y cloc a'r farchnad fenyn, yn sefyll allan am eu bod yn wahanol i'r adeiladau o'u cwmpas, ac mae rhai adeiladau cornel yn y dref fel Gwesty'r Swan, Tafarn y Blue Boar a'r Half Moon House, Lion Street yn rhan bwysig o'r broses o reoli'r golygfeydd. Caiff y rhan fwyaf o'r adeiladau eu gwerthfawrogi fel rhan o'r strydlun ehangach ac wrth gyfuno i ffurfio cefnlen i'r strydoedd a'r mannau cyhoeddus yn y dref. Yn rhan ddeheuol yr ardal gadwraeth, o amgylch Eglwys Santes Fair, mae'r datblygiadau llai dwys yn golygu y ceir golygfeydd hirach, mwy agored a gellir gwerthfawrogi cyd-destun yr Eglwys a thwmpath y castell yn y dirwedd ddeniadol. Dyffryn serth nant Login, a'r llystyfiant ynddo, yw lleoliad yr eglwys a'r datblygiadau o'i hamgylch. Ceir cysylltiadau â glannau afon Gwy a'r llystyfiant a geir ar ei hyd a'i llwybr cysylltiedig, ynghyd â golygfeydd ohonynt. Nid yw'r strydluniau amgaeedig tynn yng nghraidd canol y dref yn caniatáu golygfeydd allan i'r tirlun ehangach, er bod y datblygiadau mwy tameidiog o amgylch pen deheuol Heol y Dŵr ac ochr ddeheuol Stryd Rhydychen yn creu bylchau drwy gyrion allanol adeiladau â golygfeydd i'r dirwedd a'r ucheldir y tu hwnt.

## 6. Datblygiadau Hanesyddol ac Archaeoleg

Ymddengys bod y Gelli wedi'i sylfaenu o'r newydd yng nghyfnod y Normaniaid - ar ddiwedd yr 11eg ganrif - er ei bod yn debygol bod y rhyd ar draws yr afon yn llawer hynach. Fodd bynnag, mae'r ardal ehangach o amgylch y dref yn dangos arwyddion anheddiad mor bell yn ôl ag Oes y Cerrig, fel y crug hir ym Mhen-yr-wrlodd a thystiolaeth o wersyll tramwy Rhufeinig mawr yn Boatside Farm, ar draws yr afon i'r Gelli. Pan adawodd y Rhufeiniaid, tua 410OC fel y tybir, daeth yr ardal yn rhan o Deyrnas Brycheiniog.

Ni wyddys am unrhyw beth ar safle'r dref bresennol cyn adeiladu'r castell mwnt a beili cyntaf gan y Normaniaid yn y 1090au yn fras, a adeiladwyd gan William Revel mae'n debyg, y rhoddwyd arglwyddiaeth y Gelli iddo gan Bernard de Neufmarché yn gydnabyddiaeth am ei ran yng ngoresgyniad teyrnas Brycheiniog cyn y goresgyniad. Nid ar y safle a elwir yn Gastell y Gelli bellach yr oedd hyn, ond gyferbyn â mynedfa gefn Gwesty'r Swan. Mae'n debyg yr adeiladwyd eglwys gynnar ar safle eglwys bresennol y Santes Fair hefyd yn y cyfnod hwn er mai yn 1115 y ceir y cofnod ffurfiol cyntaf ohoni pan gafodd yr eglwys ei chysegru yn dilyn buddugoliaeth y Normaniaid ym mrwydr Aberhonddu yn 1093, dros y llywodraethwr brodorol lleol, Bleddyn.

Nid oes sicrwydd o union ddyddiad dechrau'r gwaith o adeiladu'r ail gastell carreg, ond y gred yw mai Maud de St Valerie, gwraig William de Breos, a orchmynnodd i'r gaer newydd gael ei hadeiladu tua 1200 OC. Datblygodd tref newydd y Gelli yng nghysgod y castell carreg, ac yn 1236, yn dilyn nifer o ymosodiadau, cafwyd grant i atgyfnerthu'r dref a chafodd fur amddiffynnol a phyrth, sef rhagfur a ffos pridd yn wreiddiol, ac a adeiladwyd o garreg yn y pen draw.
Roedd tri phrif borth, gyda chilborth eilaidd fel y dangosir yn ffigur x. Mae hyn yn dangos sut y cafodd y castell a'r mur eu hintegreiddio i ffurfio ffin unedig gan greu cylch amddiffynnol i warchod y gymuned, er eu budd nhw ond hefyd er budd arglwydd y faenor yr oedd ei denantiaid yn ffynhonnell refeniw bwysig ac felly roedd angen eu cadw. Goroesodd rhannau sylweddol o'r muriau hyd at ran olaf y 19eg ganrif er mai'r unig olion sylweddol a welir heddiw yw'r rhai uwchlaw nant Dulas ar ochr gogledd-ddwyreiniol y dref.

Er bod y castell ar gyrion craidd y dref i raddau, yng nghyfnod y Normaniaid roedd yn ganolbwynt y gweithgareddau ac fe'i defnyddiwyd yn bennaf fel lleoliad i filwyr, marchogion a gwŷr arfog. Byddai'r crefftwyr, siopwyr, clercod a gweision yn byw o fewn muriau'r beili fel y gellid amddiffyn y gymuned ar adeg gwarchae. Byddai gwarchodlu hefyd wedi bod angen cyflenwad rheolaidd a dibynadwy o fwyd a byddai hyn wedi cyfrannu at y broses o sefydlu'r Gelli fel tref farchnad gyda'r marchnadoedd wythnosol rheolaidd yn ogystal â'i sefydlu fel canolfan bwysig ar gyfer marchnata grawn, gwlân a da byw. Ddwywaith y flwyddyn hefyd, cynhaliwyd ffeiriau er mwyn cyflogi gweithwyr amaethyddol.

Mae enw'r dref yn Saesneg, sef *Hay*, yn deillio o'r Normaneg *La Haie,* sy'n golygu clostir â ffens neu wrych o'i amgylch, ac roedd *Hay* y canoloesoedd bellach yn gaeadle o fewn ffiniau triongl yn fras. Ystyr Y Gelli yw llwyn neu goedwig, ac mae'n debyg bod y cyfeiriad yn dyddio o gyfnod cyn sefydlu'r dref, gan ei fod wedi'i gofnodi mewn arolwg a gynhaliwyd yn 944 OC pan roedd y safle lle saif y dref bellach wedi tyfu'n wyllt heb neb yn byw ynddo.

O fewn y muriau roedd tair prif stryd yn rhedeg yn gyfochrog â'r muriau yn fras: roedd un yn cynnwys Belmont Road, Stryd Lydan a Newport Street; roedd un arall yn dilyn yn fras linell Stryd y Castell ac yna mae'n debyg yn gwyro o amgylch y castell ac yn rhedeg i lawr Bear Street; ac roedd y drydedd yn rhedeg i lawr Heol y Dŵr. Gan redeg yn unionsyth â'r strydoedd, roedd lleiniau bwrdeisi yn rhannu'r dref yn barseli y gellid casglu rhent ohonynt. Roedd blaen yn wynebu'r stryd yn golygu y gallai annedd gael ei adeiladu gyda llain o dir yn y cefn. Gellir gweld y parseli hyn o dir yn amlwg yng nghynllun y Gelli heddiw. Mae'n debyg bod ardal fawr a oedd yn ffinio â Castle Lane, Bull Ring, St. John's Place a High Town yn cynrychioli ardal y farchnad. Y tu allan i'r clostir roedd dolydd a pherllannau'r dref yn ogystal ag Eglwys y Santes Fair a'i hadeiladau cysylltiedig.

Yn gyffredinol, roedd y Canoloesoedd yn adeg o dlodi a rhwyg yn y Gelli: yn 1231 llosgwyd y castell gan y Tywysog Llywelyn ap Iorwerth ac yna cafodd ei ailadeiladu gan Harri III tua 1233 cyn cael ei adfer gan y teulu de Breos. Cipiodd Simon de Montford, Iarll Caerlŷr, y castell yn 1265 yn ystod gwrthryfel y Barwniaid yn erbyn y brenin; yn 1322 cafodd y castell ei gipio gan luoedd Edward II a'i gymryd oddi wrth deulu de Bohum, arglwyddi'r faenor ar y pryd; ac ar ddechrau'r 15fed ganrif, cafodd y dref a'r castell eu dinistrio unwaith eto gan dân yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr a datganwyd bod y castell megis adfail.

Dirywiodd pwysigrwydd milwrol y castell ar ôl cadarnhau'r broses o Uno Cymru a Lloegr yn 1542. Fodd bynnag, oherwydd ei safle amlwg yn rheoli un o'r llwybrau prin i Ganol Dyffryn Gwy, dechreuodd y dref elwa ar dwf graddol masnach ar ddiwedd y canoloesoedd, a daeth yn dref farchnad a chanolfan gwasanaethau bwysig ar gyfer cefnwlad eang yn y 16eg a'r 17eg ganrif.





*Gorthwr y castell (ochr chwith y llun) yw'r unig elfen sydd wedi goroesi o'r amddiffynfeydd gwreiddiol. Mae'r Faenor sy'n dyddio o'r 16eg ganrif yn adfail bellach ond mae'n dal i fod yn strwythur urddasol uwchlaw ardal y farchnad a chanol y dref.*

Rywbryd rhwng 1600 a 1650, adeiladwyd y plasty Jacobeaidd, a leolir o fewn y muriau Normanaidd, dan berchenogaeth teulu Gwynn o Drecastell a dymchwelwyd y rhan fwyaf o'r mur allanol er mwyn gwella'r golygfeydd. Cyn hyn, anaml y byddai'r 'perchenogion' amrywiol yn byw yn y castell ei hun, ond byddent yn recriwtio gwŷr ymladd, yn gweinyddu cyfiawnder ac yn casglu eu rhenti yno. Adeilad gweinyddol arfog ydoedd yn y bôn. Yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif, gwelwyd amrywiaeth o denantiaid yn rhentu'r castell ar brydles ac yn ystod oes Fictoria, daeth yn gartref i ficeriaid y Gelli a byddai Francis Kilvert, curadur Clyro a dyddiadurwr Fictoraidd, yn ymwelydd mynych.

Er i'r dref fethu â datblygu'n ganolfan ddiwydiannol bwysig yn ystod y chwyldro diwydiannol, arweiniodd gwell hygyrchedd at ehangu posibl, yn cynnwys:

- Gwelliannau i'r ffyrdd tyrpeg ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif;
- Agor y dramffordd rhwng y Gelli ac Aberhonddu yn ystod ail ddegawd y 19eg ganrif fel ffordd ratach o gludo glo o Gamlas y Fenni ac Aberhonddu;
- Adeiladu Rheilffordd Henffordd, y Gelli ac Aberhonddu yn y 1860au, gan ddisodli'r dramffordd; a'r
- Rheilffordd Golden Valley, a adeiladwyd rhwng 1879 a 1889.



*Arferai'r rheilffordd redeg ar hyd glannau afon Gwy, gyda'r orsaf i'r gogledd o nant Dulas, y tu allan i'r ardal gadwraeth bresennol*

Fodd bynnag, roedd y 'gwelliannau' hyn hefyd yn golygu y gellid dod â nwyddau rhatach i'r Gelli, ar draul rhai crefftwyr a masnachwyr y dref, a oedd bob amser wedi bod yn rhan bwysig o'r economi yn yr ardal.

Yn ystod y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, gwelwyd dirywiad araf yn ffyniant llawer o drefi bach fel y Gelli. Lleihaodd y ddibyniaeth ar siopau a masnachau lleol ymhellach, ynghyd â'u hyfywedd, ac roedd gan bobl ifanc lai a llai o reswm i aros yn y dref. I rwbio halen yn y briw, cafodd yr orsaf ei chau ym mis Rhagfyr 1962, gyda llinell Henffordd-y Gelli-Aberhonddu yn dioddef wrth law toriadau Beeching. Ffodd bynnag, yn ystod 1962 hefyd, prynodd Richard Booth siop fach yn y dref, am £700, sef yr hen orsaf dân, Boz Books bellach, ar Stryd yr Eglwys. Nododd hyn ddechrau'r broses o drawsnewid tref farchnad fach yn ganolfan fasnachu fwyaf y byd ar gyfer llyfrau ail-law a llyfrau sydd allan o brint. Roedd y busnes llyfrau yn ehangu ac yn 1969, prynodd Sinema'r Plaza a oedd yn wag ar y pryd ac agorodd amrywiaeth o siopau llyfrau arbenigol yn y dref. Erbyn canol y 1970au, roedd ganddo 20 o staff a miliwn o lyfrau ail-law. Cafodd gwerthwyr llyfrau eraill eu denu i'r dref ac mae safleoedd crefftau a manwerthu eraill wedi datblygu dros y blynyddoedd, gan adeiladu ar sylfaen yr ymwelwyr twristiaeth. Cyflwynwyd Gŵyl Lenyddol y Gelli, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 1988, gan Norman Florence a chafodd ei chyfarwyddo yn ddiweddarach gan ei fab, Peter.

Ceir gwybodaeth fanylach am hanes y Gelli yn *History of the Hay* ac *Annals of a Parish* gan Geoffrey Fairs yn ogystal â *The Book of Hay* gan Kate Clarke, sydd ar gael yn y Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn y Gelli ac Aberhonddu.

# 7. Dadansoddiad Gofodol

Mae'r strydoedd a'r gofodau yn y Gelli Gandryll yn cynnig cydbwysedd cynnil o elfennau sy'n uno ac yn amrywio. Ceir undod, mewn mannau, ym mharhad y llinell adeiladu, a lliwiau cyffredinol y deunyddiau, ond ceir amrywiaeth mawr ym maint, ffurf a chasgliad adeiladau unigol, ym manylion y ffenestri, drysau, simnai, llinellau bondo a thoeon, lled y strydoedd, yr ymdriniaeth o ffiniau, i ba raddau y mae ardaloedd yn agored neu wedi'u hamgáu, golygfeydd a fistâu, tirnodau yn ogystal ag effeithiau amrywiol y topograffi a'r dirwedd, a'u cydberthynas.


Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o natur nodedig y dref yn lleol a'r amrywiaeth lawn o deipoleg ofodol, mae'n ddefnyddiol ei rhannu'n ardaloedd â nodweddion unigol, a sefydlu'r elfennau sy'n gwahaniaethu pob un o'r ardaloedd hyn â'r lleill a, lle y bo'n bosibl, y rhesymau pam.



*Castell y Gelli*

Mae Ffigur 7.1 yn dangos yr ardaloedd â'r nodweddion gwahanol yn yr ardal gadwraeth, fel y diffinnir yn y ddogfen hon, sef:

- Castell y Gelli, canol y dref a Stryd y Castell
- Stryd yr Eglwys (gogledd a de)
- Belmont Road / Stryd Lydan / Newport Street
- Heol y Dŵr, Lion Street a Bear Street
- Stryd Rhydychen
- Eglwys Santes Fair a thwmpath y castell
- Afon Gwy




Ffigur 7.1 Ardaloedd â nodweddion Ardal Gadwraeth y Gelli Gandryll

**Castell y Gelli, canol y dref a Stryd y Castell**
Ceir amrywiaeth eang o adeiladau unigol a nodweddion gofodol yn yr ardal graidd hon o'r dref, ond ceir undod a chysondeb hefyd ym maint a ffurf gyffredinol y gwahanol strydoedd a gofodau a'r defnydd a wneir ohonynt, ac felly ceir rhywfaint o gyfiawnhad o'u grwpio gyda'i gilydd mewn un ardal â nodweddion.




*Ffigur 7.2 Ardal â nodweddion Castell y Gelli, canol y dref a Stryd y Castell*

Y **castell** oedd y prif reswm dros fodolaeth y Gelli a gellid ystyried yn haeddiannol mai'r man lle mae'r castell a'r dref yn cwrdd, o dan orthwr y castell sydd wedi goroesi, yw canol y dref. Dyma lle mae ffryntiadau trefnedig a chydlynol Stryd y Castell yn cwrdd â'r we fanwl a chymhleth o gysylltiadau yn cynnwys Stryd y Farchnad, High Town a The Pavement. Byddai eu disgrifio yn strydoedd yn camddehongli eu nodweddion efallai fel y gofodau a'r llwybrau sy'n gwasgu rhwng yr adeiladau a'r blociau trefol o'u hamgylch a chânt eu diffinio'n llwyr gan y ffurf adeiledig sy'n eu hamgylchynu.

Er bod y castell, mewn gwirionedd, y tu allan i ffin gaerog y dref, yma y byddai'r cysylltiadau â'r tri phrif borth i mewn i'r dref yn cwrdd, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r gydberthynas a'r rhyngddibyniaeth hanfodol rhwng y dref a'r castell.





*Ardal y farchnad, o dan orthwr y castell (chwith) a'r we gul o strydoedd yng nghanol y dref (dde)*

Yn Adran 6 o'r ddogfen hon, disgrifiwyd pwysigrwydd sicrhau cyflenwadau a bwyd rheolaidd i warchodlu'r castell, a oedd yn cyfrannu at y ffaith bod y Gelli yn lleoliad rhesymegol ar gyfer tref farchnad, a byddai'r farchnad yn naturiol wedi datblygu o amgylch perimedr ei 'chwsmer' mwyaf a ger ei borth.

Er bod adeiladau o'r cynllun canoloesol wedi cael eu disodli gan strwythurau mwy cadarn, gydag adeiladau o'r $19^{eg}$ ganrif fel y ffurf amlycaf, mae ôl troed anffurfiol ac organig tarddiad y dref yn amlwg iawn ar y ddaear.

Efallai nad oes angen ceisio diffinio union ffin **canol y dref**, ond ceir gofodau nodol clir o amgylch perimedr yr ardal ganolog sy'n creu mannau trawsnewid naturiol o un parth o'r dref i un arall y ceir nodweddion gwahanol rhyngddynt. Mae'r rhain fel a ganlyn: sgwâr y castell, yn union i'r gogledd o orthwr y castell; y gofod gerllaw tŵr y castell ar ben gorllewinol Lion Street; a'r gofod o flaen Gwesty'r Kilvert ar ben dwyreiniol Stryd y Farchnad. Mae craidd canol y dref wedi'i leoli rhwng y nodau hyn ac yn yr ardal hon ceir rhwydwaith tynn o strydoedd a llwybrau byr a chul, a ddiffinnir gan yr adeiladau deulawr a thrillawr fel arfer sydd bron yn llenwi eu lleiniau yn llwyr ac sy'n amlapio o amgylch corneli'r strydoedd i greu 'ymyl' barhaus i'r gofod cyhoeddus. Mae hyn yn creu nodwedd drefol arbennig iawn, sy'n deillio'n uniongyrchol o darddiad canoloesol y dref ac o atyniad cynhenid yr ardal fasnachol bwysig hon ar gyfer datblygiadau adeiledig a'r dyhead dilynol i ddefnyddio pob parsel olaf o ofod sydd ar gael.

Mae **Stryd y Castell** yn cysylltu rhwng y craidd canolog hwn a'r Porth Gorllewinol gwreiddiol i'r dref gaerog, a ystyrir yn brif borth i mewn i'r dref. Caiff undod y defnyddiau masnachol, llinell yr adeiladau a maint a rhythm cyffredinol yr adeiladau ei gydbwyso gan amrywiaeth wych o driniaeth weddluniol a chymysgedd fywiog o ddeunyddiau, talcenni, dormeri, manylion pensaernïol a blaenau siopau sydd wedi goroesi'n dda. Mae nodweddion manwerthu'r stryd yn parhau y tu hwnt i'r gyffordd â Belmont Road er mwyn cysylltu â Stryd yr Eglwys, neu'n fwy cywir i 'esblygu iddi'.




*Yr amrywiaeth o driniaeth weddluniol ar Stryd y Castell*


**Stryd yr Eglwys (gogledd a de)**
Stryd yr Eglwys yw'r prif borth deheuol i mewn i'r dref, fel y disgrifir yn adran 5 uchod, a dyma hefyd lle gwelir y trawsnewidiad o ddatblygiad dwys, trefol canol y dref i nodweddion mwy rhydd a meddal y tu hwnt. Yn hanner gogleddol Stryd yr Eglwys, y nodweddion cyffredinol a welir yw strydlun mwy llydan, mwy agored a cheir llai o gysondeb a pharhad i'r datblygiadau o gymharu â chraidd canolog y dref. Mae terasau trillawr urddasol ar ochr orllewinol y stryd yn gwrthgyferbynnu â'r gymysgedd ehangach o ddatblygiadau gyferbyn, sydd wedi'u lleoli'n rhannol y tu allan i'r ardal gadwraeth a ddiffiniwyd. Mae datblygiad o'r 20fed ganrif sydd ag ôl troed mwy wedi'i osod yn ôl o'r stryd y tu hwnt i furiau terfyn a rheiliau gyda choed a blannwyd yn cuddio'r adeiladau i ryw raddau.

Y tu hwnt i Westy'r Swan, yn hanner deheuol Stryd yr Eglwys, mae'r ymdriniaeth o ffiniau ar ffurf muriau a rheiliau yn elfen uno bwysig yn nodweddion yr ardal ac mae nodweddion agored a mwy tameidiog y datblygiadau adeiladau hyd yn oed yn fwy amlwg.




*Ffigur 7.3 Ardal â nodweddion Stryd yr Eglwys (gogledd a de)*

**Belmont Road / Stryd Lydan / Newport Street**
Er bod Belmont Road, Stryd Lydan a Newport Street i gyd yn rhan o'r B4350 sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de drwy'r dref, caiff y newidiadau yn yr enw ar ei hyd eu hadlewyrchu yn y newidiadau sylweddol yn y nodweddion rhwng yr adrannau hynny. Yn hanesyddol, roedd y llwybr hwn yn cysylltu'r Porth Gorllewinol a Phorth y Dŵr ar bennau deheuol a gogleddol y dref furiog ac mae'r hen leiniau bwrdeisi hir a chul, sy'n arbennig o amlwg ar ochr orllewinol y strydoedd, yn adlewyrchu ei darddiad canoloesol.




*Ffigur 7.4 Ardal â nodweddion Belmont Road / Stryd Lydan / Newport Street*

Gan ddechrau o'i phen deheuol, mae **Belmont Road** yn goleddfu i lawr ac yn amlapio o amgylch cefn yr adeiladau manwerthu ar Stryd y Castell y mae'n tarddu ohoni. Yn wahanol i Stryd y Castell a Stryd Lydan y mae'n cysylltu â nhw, ni cheir unrhyw ffryntiadau gweithredol na datblygiadau manwerthu ar y stryd a cheir ymdeimlad o ddolen gysylltiol neu lwybr drwodd yn hytrach na 'lle' ynddo'i hun. Wrth y gyffordd â Stryd y Castell, mae ffryntiad cymesurol Belmont House wedi'i osod yn ôl y tu ôl i reiliau ar y gyffordd ac mae'n sianelu llif y stryd o amgylch y gornel a heibio talcen slip pedwar llawr yr hen felin wlân sy'n dynn ar ochr y ffordd. Er nad yw'r datblygiadau'n parhau y tu hwnt i'r fan hon, ac mae ffryntiad datblygiad tai newydd Carlsgate wedi'i osod yn ôl o linell y palmant, ceir ymdeimlad cryf o glostir o ganlyniad i'r mur cynhaliol uchel sy'n cynnal y gerddi ar ochr ddwyreiniol y stryd a chulni'r stryd yn gyffredinol. Mae'r ymdeimlad hwn o gaeadle yn parhau gyda'r muriau uchel ar bob ochr, nad ydynt yn fwy na phump i chwe medr ar wahân, gan gyrraedd man cyfyng rhwng y Swyddfa Gofrestru a theras 1-3 Belmont Road gyferbyn. Caiff cyfyngder y llwybr yn y fan hon ei ategu gan y cyferbyniad yn y gofod sy'n agor allan o amgylch tŵr y cloc, ar ben Belmont Road, wrth ei chyffordd â phen deheuol Stryd Lydan, sydd wedi'i henwi'n addas.

Tŵr y cloc yw canolbwynt gofod trionglog a grëir gan aliniad elinog adeiladau ar ochr ddwyreiniol **Stryd Lydan**. Hyd nes i'r farchnad wartheg gael ei hadeiladu i'r gorllewin o Stryd yr Eglwys, arferid defnyddio Stryd Lydan fel ardal marchnad da byw a cheir ymdeimlad o sgwâr cyhoeddus estynedig gyda'r cyfuniad o:

ffryntiadau parhaus sy'n amgylchynu’r gofod; onglau cynnil aliniad y stryd sy'n amgáu'r golygfeydd ochrol ar ei hyd; lled y stryd; ac effaith theatrig braidd y palmant uchel sy'n rhedeg ar hyd y rhan fwyaf o ochr ddwyreiniol yr ardal. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau wedi'u hadeiladu'n dynn ar ochr gefn y palmant ac mae cysondeb a chywirdeb y llinell adeiladu hon yn cyfrannu at y broses o uno elfennau gwrthgyferbyniol maint, ffurf a deunyddiau a geir mewn adeiladau unigol fel tafarn y Three Tuns a'r Café Royal (y mae'r ddau ohonynt ymhlith yr adeiladau hynaf sydd wedi goroesi yn y dref). Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar y stryd yn rhestredig ac mae llawer o'r lleill wedi'u rhestru'n lleol. I'r gogledd o'r gyffordd â Bridge Street, mae'r gofod yn culhau eto ac mae'r nodweddion yn newid yn ôl o 'ofod' i lwybr. Mae'r trawsnewidiad hwn yn fwy amlwg i'r gogledd o'r gyffordd â Heol y Dŵr lle mae Newport Street yn tarddu.





*Ceir newidiadau sylweddol yn y nodweddion ar hyd y stryd gyda chlostir cul muriau terfyn Belmont Road (chwith), gofod eang, trefol Stryd Lydan (canol) a nodweddion meddalach wedi'u hintegreiddio â'r dirwedd ar Newport Street (dde)*

Mae'r enw **Newport Street** yn deillio o *Ny port* sy'n golygu *Porth y Dŵr* ac mae aliniad ac ôl troed y mur tref canoloesol gwreiddiol yn amlwg iawn o hyd yn yr arglawdd ar ochr ddwyreiniol y stryd. Mae'r natur agored sy'n deillio o'r ardaloedd o dirwedd a llystyfiant gerllaw'r stryd ynghyd â'r newid o ffryntiadau mwy gweithredol a pharhaus a geir ar Stryd Lydan i strydlun mwy tameidiog yn rhoi nodweddion cyrion trefol i'r stryd. Mae tai mwy newydd ar yr ochr orllewinol wedi'u gosod ymhell yn ôl o'r stryd sy'n colli'r ymdeimlad o glostir sy'n nodwedd mor gryf yn y rhan fwyaf o'r dref, er bod y mapiau hanesyddol yn adran 4 yn dangos bod yr adeiladau gwreiddiol ar y safleoedd hyn yn llawer agosach at linell y palmant.

### Heol y Dŵr, Lion Street a Bear Street

Er bod y strydoedd hyn o fewn perimedr y dref furiog wreiddiol, maent yn gwrthgyferbynnu rhywfaint â dwyster craidd manwerthu'r dref ac mae ganddynt nodweddion tawelach a mwy cynnil gyda datblygiadau preswyl yn bennaf.




*Ar Heol y Dŵr, mae tai newydd (dde) o ffurf a maint sy'n cyd-fynd â mathau hanesyddol, yn cyfuno ag eiddo hŷn (chwith) er mwyn creu cyfanwaith unedig*




*Mae adeiladau Lion Street o faint a ffurf debyg i Heol y Dŵr ag agosrwydd ychwanegol oherwydd culni'r stryd*

Mae mapiau hanesyddol yn dangos bod **Heol y Dŵr** wedi'i datblygu'n llawer llai dwys yn ystod y cyfnod canoloesol o gymharu â chraidd y dref ac mae'n debyg bod rhai o'r lleiniau ar ei hyd yn darparu tir ar gyfer ffrwythau, cnydau a phori o fewn yr anheddiad caerog. Roedd yn cysylltu dau o'r tri phorth i mewn i'r dref gaerog ac, felly, rhaid ei bod yn llwybr pwysig o'r 13eg ganrif, er bod llawer o'r datblygiadau presennol yn fwy diweddar na'r rhan fwyaf o'r dref ac yn llai gwerthfawr o ran treftadaeth gynhenid. Fodd bynnag, mae'n cynnig darpariaeth breswyl yn agos at ganol y dref ac mae'r rhan o'r ffordd a elwir yn The Gardens, ar ben gorllewinol y stryd, yn cynnwys clwstwr tynn o fythynnod a thai ar ei hochr ogleddol gan greu grŵp anffurfiol ond deniadol o adeiladau. Ar un pen i'r stryd, i'r gorllewin, mae oriel The Globe, hen Eglwys Ddiwygiedig Unedig Ebenezer, sydd wedi'i leoli uwchlaw'r gyffordd rhwng Heol y Dŵr a Newport Street, y tu ôl i fur cynhaliol a rheiliau, ac i'r dwyrain gan dafarn The Old Black Lion, ger lleoliad un o'r prif byrth i'r dref gaerog. Rhyngddynt, ceir cymysgedd amrywiol ac anffurfiol o derasau deulawr yn gyffredinol o anheddau yn cynnwys rhai datblygiadau preswyl diweddar sy'n cyd-fynd yn dda â'r strydlun. Mae'r Orsaf Heddlu ar ben deheuol y stryd yn siom gan mai adeilad unllawr o ansawdd gwael ydyw gydag ymdriniaeth o ffiniau a chynllun lleiniau nad ydynt yn cyd-fynd â nodweddion y stryd a'r dref yn ei chyfanrwydd.




*Ffigur 7.5 Ardal â nodweddion Heol y Dŵr, Lion Street a Bear Street*

Mae ardal **Lion Street** y tu allan i ganol y dref yn debyg o ran maint, ffurf a'i nodweddion preswyl i rannau o Heol y Dŵr, er bod culni'r stryd, ynghyd â'r datblygiadau mwy parhaus, yn rhoi nodweddion clos ac amgaeedig, a welir hefyd ar **Bear Street.**



*Bear Street, yn edrych i'r gorllewin*



*Pen dwyreiniol Chancery lane, sy'n cysylltu â Lion Street*

Mae gan **Chancery Lane** nodweddion tynnach fyth sy'n culhau i'r dwyrain gan gynnig mynediad i gerddwyr yn unig i Lion Street. Mae'r mapiau hanesyddol yn dangos y byddai wedi bod yn fwy amgaeedig fyth nag y mae heddiw, cyn i'r adeiladau ar ochr y llyfrgell gyhoeddus bresennol gael eu dymchwel.

**Stryd Rhydychen**
Mae Stryd Rhydychen yn rhedeg y tu allan i berimedr y muriau tref gwreiddiol, o amgylch ffin ddeheuol caeadle'r castell, ac mae wedi cadw ymdeimlad o fod ar gyrion canol y dref, neu ychydig ar wahân iddo. Mae rhannau helaeth o'r lleiniau ar ochr ddeheuol y ffordd yn gorwedd y tu allan i'r ardal gadwraeth, er, yn anochel, maent yn dal i effeithio ar nodweddion a naws gyffredinol y stryd. Ceir maes parcio mawr ac amlwg, wrth ymyl canolfan grefftau a chanolfan groeso, gerllaw Castell y Gelli.

Er bod y datblygiad ar ochr ogleddol y stryd yn ffurfio strydlun cymharol gydlynol ac integredig, mae'r ochr ddeheuol yn ddigyswllt a thameidiog iawn ag adeiladau unigol o gyfnodau gwahanol wedi'u 'gwasgaru' braidd ar hyd ochr y ffordd. Mae pâr o filâu Sioraidd rhestredig wedi'u gosod yn ôl o'r stryd y tu ôl i reiliau ond ni cheir datblygiadau parhaus y naill ochr na'r llall iddynt, gyda'r maes parcio cyhoeddus wrth eu cefnau.






*Mae'r maes parcio cyhoeddus (dde) ar ochr ddeheuol strydlun Stryd Rhydychen (chwith) sydd braidd yn ddigyswllt a thameidiog*




*Ffigur 7.6 Ardal â nodweddion Stryd Rhydychen*

**Eglwys Santes Fair a thwmpath y castell**
Ceir mynediad i'r ardal hon o Stryd yr Eglwys, ar hyd Swan Bank ac er gwaethaf ei phwysigrwydd o ran hanes y datblygiadau yn y Gelli, byddai'n ddigon hawdd ei cholli, gan fod y fynedfa, wrth ymyl Gwesty'r Swan, yn gul ac ar ongl â'r brif ffordd. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad bod yr ardal yn ynysig braidd ac ar wahân i graidd y dref, ac mae'r nodweddion agored, a ddominyddir gan y lleoliad yn y dirwedd, yn gwrthgyferbynnu'n amlwg â'r datblygiadau dwys yn y rhan fwyaf o'r ardal gadwraeth.




*Ffigur 7.7 Ardal â nodweddion Eglwys Santes Fair a thwmpath y castell*

Yr ardal hon yw lleoliad y strwythurau cynharaf yn y Gelli - y castell Mwnt a Beili ac Eglwys Santes Fair - y sefydlwyd ill dau tua'r un pryd, o amgylch troad y 12fed ganrif. Nid oes llawer o olion wedi goroesi o'r adeiladau cynnar hyn, er bod siâp a ffurf twmpath y castell a wnaed â llaw yn amlwg iawn o hyd yn y dirwedd. Ychwanegwyd tŵr i'r Eglwys yn y 15fed ganrif ond roedd yn adfail ac yn segur erbyn dechrau'r 18fed ganrif a chafodd ei hailadeiladu yn 1833/34, gan ehangu'r gangell yn 1866.

**Afon Gwy**

Ac eithrio'r ardal tua phen gogleddol yr ardal gadwraeth, mae'r tir yn goleddfu'n serth tuag at yr afon, sy'n golygu na allwyd datblygu'n agos at lan yr afon ei hun, ac roedd muriau'r dref wedi'u gosod yn ôl o lan yr afon. O'r cyfnodau cynharaf, roedd gan drigolion y Gelli yr hawl i gerdded rhwng muriau'r dref a glan yr afon ac yn 1884, cynlluniodd Syr Joseph Bailey lwybr yr afon, a elwir bellach yn llwybr Bailey, ar ei draul ei hun, a'i roi i'r dref. Rhedai rhwng llinell y rheilffordd a'r afon

# 8. Dadansoddiad o Nodweddion

Fel yr oedd yn gyffredin mewn sawl tref yng Nghymru ac ar y gororau, cafodd y Gelli ei hailadeiladu'n sylweddol o tua 1830 ymlaen: cafodd y strwythurau mwy cyntefig eu dymchwel a'u disodli gan dai cerrig Sioraidd ac yn ddiweddarach gan aneddiadau a siopau brics coch Fictoraidd; cafodd llawer o'r tai ffrâm bren eu gorchuddio; a chafodd rhai o'r prif adeiladau cyhoeddus eu hailddarparu.

**Adeiladau cyhoeddus**
Ar wahân i olion y ddau gastell, nid oes unrhyw adeiladau cyhoeddus gwreiddiol wedi goroesi o'r cyfnod cyn y $19^{eg}$ ganrif. Ymysg rhai o'r adeiladau pwysig a ddisodlodd strwythurau cynharach mae:

- Y Farchnad Fenyn, dyddiedig 1833, a adeiladwyd gan William Enoch ar safle marchnad fenyn flaenorol. Cafodd ei hochrau agored eu hamgáu gyda blociau concrid yn yr Ail Ryfel Byd, i'w galluogi i gael ei defnyddio fel storfa, ond cafodd ei hadfer i'w hen gyflwr yn 1984;
- Y Farchnad Gaws, a adeiladwyd yn 1835 ar gyfer arglwydd y faenor, Syr Joseph Bailey, a hynny, mae'n debyg, ar safle'r farchnad o'r $17^{eg}$ ganrif a oedd wedi'i dymchwel;
- Eglwys Plwyf Santes Fair, a ailadeiladwyd i raddau helaeth yn 1833/34 ar ôl adfeilio'n llwyr;
- Capel Sant Ioan, a leolir ar safle capel cymdeithasol canoloesol, y dywedir iddo gael ei sefydlu yn 1254, ond y mae ei adeiladwaith presennol yn dyddio o'r 1930au.

Ymysg yr adeiladu cyhoeddus nodedig eraill mae tŵr y cloc a godwyd yn 1884 am £600. Deilliodd y syniad o rodd o £50 gan Gapten Brown ar gyfer gosod cloc ar dŵr yr eglwys. Oherwydd diffyg brwdfrydedd ar gyfer y syniad hwn, cafodd ei ddatblygu yn gynllun mwy crand ar gyfer cloc y dref, neuadd gyhoeddus a chyfnewidfa ŷd er, yn y diwedd, dim ond tŵr y cloc a adeiladwyd.





*Tŵr y Cloc, (chwith) a golygfa ar hyd Stryd y Farchnad (dde) gyda'r Farchnad Fenyn ar ochr chwith y llun.*


## Adeiladau diwydiannol

Er nad oedd y Gelli yn dref ddiwydiannol erioed, gan mai cymuned amaethyddol a chanolfan farchnad ydoedd yn bennaf, datblygodd sawl gweithgaredd diwydiannol yn y 19eg ganrif, yn gysylltiedig â'r diwydiant gwlân a gweithgynhyrchu brag yn bennaf. Mae adeilad y felin ar ben deheuol Belmont Road wedi goroesi, ond mae eraill, fel pandy ar Heol y Dŵr, a melin rawn ar safle'r tai newydd ar ben deheuol Newport Street, wedi'u dymchwel. Arferai'r Neuadd Amaethyddol, Lion Street, sydd bellach yn siop lyfrau, fod yn eiddo i Robert Williams, a oedd yn gweithgynhyrchu peiriannau a theclynnau fferm gan gyflogi tua 200 o bobl. Fe'i hadeiladwyd yn 1886, ac mae'n strwythur deulawr mawreddog, ag islawr eang, ffryntiad wedi'i addurno â theils a nenfwd pren eang wedi'i gynnal gan bileri pren.

## Adeiladau Domestig

Er bod rhai o'r adeiladau canoloesol gwreiddiol wedi'u dymchwel a'u disodli yn y 19eg ganrif, cafodd eraill eu hailadeiladu neu eu hailorchuddio o amgylch eu strwythur ffrâm bren wreiddiol. Ymhlith y rhain mae:

- Tafarn y Three Tuns, sy'n dafarn ers 1830, ond sy'n ymgorffori rhan o adeilad ffrâm bren tri bae o'r 16eg ganrif yn ei strwythur;
- 13 a 14 High Town, pâr o strwythurau ffrâm bren o'r 17eg ganrif, gyda llawr uchaf bargodol yn wreiddiol;
- 41 Lion Street;
- The Bear, Bear Street, a adeiladwyd ar ddiwedd y 16eg ganrif fel tŷ ffrâm bren un bae gyda blaen talcennog, ac a ehangwyd yn y 17eg ganrif. Ar ddiwedd y 18fed ganrif / dechrau'r 19eg ganrif, cawsant eu cyfuno a'u gorchuddio â charreg yn bennaf.







*Wal talcen tafarn y Three Tuns, ar gornel Stryd Lydan a Bridge Street. Chwith, ffotograff a dynnwyd yn ystod y gwaith adnewyddu, gan ddatgelu'r ffrâm bren o'r 16eg oddi tanodd a dde, fel y'i gwelir heddiw. Mae hefyd yn werth nodi'r esgynfaen i'ch chwith o'r drws, sy'n nodweddiadol o sawl tafarn yn yr ardal.*

Ymysg yr adeiladau eraill sydd wedi cadw rhannau o'r ffrâm bren wreiddiol mae:

- Café Royal, Stryd Lydan;
- 2-4 Stryd y Farchnad;
- 1, The Pavement;
- 6 Stryd y Farchnad;
- 46-47 Lion Street;
- West House, Stryd Lydan;
- Wheatsheaf Inn, Lion Street;
- Paris House, High Town















*Mae'r amrywiaeth o ymdriniaeth weddluniol yn y dref yn ychwanegu at wychder yr amgylchedd ac yn adlewyrchu argaeledd deunyddiau gwahanol ar y cyfnodau gwahanol o ddatblygu'r dref.*

Newidiodd y **deunyddiau adeiladu** a ddefnyddiwyd yn y Gelli dros amser, ac roeddent hefyd yn adlewyrchu'r rhai a oedd ar gael yn yr ardal gyfagos ac, yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif, y rhai a gludwyd ar y dramffordd, y rheilffordd a'r ffordd. Gellir gweld yr amrywiaeth o driniaethau gwahanol, cyfuniadau a manylion y garreg, rendr a brics yn y ffotograffau enghreifftiol uchod. Ar gyfer toeon, er mai llechi Cymreig yw'r prif ddeunydd, bydd teils carreg naturiol ar rai o'r strwythurau cynharach o hyd, er enghraifft tafarndai'r Rose and Crown a'r Seven Stars ar Stryd Lydan yn ogystal ag adeilad Castell y Gelli sy'n dyddio o'r $17^{eg}$ ganrif.

Mae **ffenestri a drysau** yn fanylion pensaernïol pwysig, a ffenestri codi pren yw'r math mwyaf cyffredin o ffenestr, gan adlewyrchu'r prif gyfnod ailadeiladu yn y dref, drwy gydol y $19^{eg}$ ganrif. Ceir cryn amrywiaeth ym manylion a dyluniad pob ffenestr godi wahanol, a gyflawnir yn bennaf drwy faint a mesuriadau'r ffenestr ac yn nifer y cwareli unigol ym mhob un o'r ffenestri codi. Newidiodd ffasiwn dros y degawdau, ynghyd â'r posibilirwydd technolegol o'r gwydr a oedd ar gael ac yn y $19^{eg}$ ganrif, dechreuodd maint y ffenestri dyfu, er mwyn gadael mwy o olau i mewn. Gan fod cwareli mwy o wydr plât ar gael, nid oedd angen cynifer o gwareli ym mhob ffenestr godi, 2/2 fel arfer yn hytrach na 6/6 o'r blaen. Roedd angen strwythur pren cryfach i gynnal y gwydr trymach, ac yn aml, defnyddiwyd 'cyrn' yn aml i atgyfnerthu corneli'r fframiau. Mae gan bob adeilad unigol yn y dref ei gynllun a'i gyfuniad penodol ei hun o wydr sy'n adlewyrchu'r cyfnod y cafodd ei adeiladu a / neu ei ailadeiladu a faint o waith cynnal a chadw ac atgyweirio a wnaed arno a'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Mae **blaenau siopau** yn rhan bwysig iawn o'r strydlun a nodweddion cyffredinol y dref, gyda ffryntiadau manwerthu deniadol ar hyd y rhan fwyaf o Stryd y Castell ac yng nghraidd canol y dref yn cynnwys Lion Street, High Town, Stryd y Farchnad a The Pavement. Mae llawer o'r siopau hyn wedi cadw eu cynllun traddodiadol, gan ddilyn yr egwyddorion a nodwyd yng Nghanllaw Cynllunio Blaenau Siopau'r Parc Cenedlaethol.




*Blaenau siopau traddodiadol ar Stryd y Castell*

Mae **muriau terfyn** yn bwysig iawn i amgáu a diffinio mannau gofodau a pherchenogaeth. Ceir sawl enghraifft dda o furiau tywodfaen cerrig llanw yn y dref ac mae topograffi'r ardal yn golygu y defnyddiwyd muriau cynhaliol mewn sawl lleoliad, yn cynnwys o amgylch y rhan fwyaf o berimedr tir y castell, ar hyd Belmont Road a'r mur cynhaliol bach ar hyd y rhan fwyaf o Stryd Lydan. Mae muriau hefyd yn cyfrannu'n helaeth at y broses o uno'r strydlun, gan gysylltu adeiladau i greu cyfanwaith cydlynol.



*Ar Stryd Lydan, ychwanegir at y mur cynhaliol isel a'r cerrig naturiol ar y palmant uwch gan reiliau metel sy'n helpu i atgyfnerthu'r stepiau rhwng y ddwy lefel*

Cymharol brin yw'r enghreifftiau o **ddeunyddiau arwyneb** traddodiadol a / neu wreiddiol ar ffyrdd a phalmentydd yn y dref. Er enghraifft, lle mae cerrig crynion wedi'u cadw, fel o fewn tir y castell, o flaen George House, Stryd yr Eglwys ac yn y llwybr ger Gwesty'r Kilvert, maent yn cynnig gwrthgyferbyniad deniadol o ran gwead a nodweddion. Tarmac du yw'r prif ddeunydd ar gyfer ffyrdd a phalmentydd, er lle y defnyddiwyd deunyddiau amgen, nid yw rhai o'r deunyddiau newydd mwy modern ar strydoedd y dref yn cyrraedd safon sy'n cyd-fynd â nodweddion etifeddol yr adeiladau a'r gofodau o'u hamgylch, er enghraifft y cerrig sets concrid a ddefnyddiwyd ar gyfer palmant Stryd y Castell ac o fewn craidd canol y dref yn cynnwys, yn ddigon eironig, The Pavement!



*Cerrig crynion deniadol ar Stryd yr Eglwys (chwith), Castell y Gelli (canol) a ger Gwesty'r Kilvert (dde)*

Mae gan y Gelli Gandryll 145 o Adeiladau Rhestredig, gyda Chastell y Gelli yn Radd I a'r lleill yn Radd II. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u lleoli o fewn ffin yr ardal gadwraeth bresennol ac fe'u nodir yn Ffigur 4.1. Hefyd, ceir nifer helaeth iawn o adeiladau yr ystyrir eu bod o bwys yn lleol sydd wedi'u categoreiddio 'wedi'u rhestru'n lleol', a nodir hefyd yn Ffigur 4.1. Mae dau safle'r castell yn Henebion Cofrestredig.

Un o asedau cryfaf a phwysicaf y dref yw'r modd y mae'r adeiladau unigol yn ffurfio strydluniau integredig ac unedig a grwpiau o adeiladau. Dim ond rhai o'r adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth sydd ar wahân a'r 'ensemble' o uchderau strydoedd yw un o brif elfennau nodweddion y Gelli.

Mae **graddau'r ymyrraeth a'r difrod** i nodweddion yr ardal gadwraeth yn fater pwysig a all amlygu ei hun mewn sawl ffordd:

- Safonau cynnal a chadw gwael sy'n arwain at ddirywiad yn adeiledd yr adeilad a phosibilrwydd o golli deunyddiau a manylion gwreiddiol;
- Newidiadau modern amhriodol gan wanháu nodweddion a dilysrwydd etifeddol;
- Adeiladau sydd wedi mynd â'u pen iddynt neu sy'n segur sy'n cael effaith negyddol ar y strydlun yn ogystal â'r ffaith eu bod yn agored i ddirywiad cyflym;
- Safleoedd adwy sy'n edrych yn anneniadol ac sy'n effeithio'n andwyol ar hyfywedd a gwerth economaidd adeiladau a busnesau cyfagos;
- Adeiladau modern ansensitif sy'n effeithio'n andwyol ar gywirdeb nodweddion yr ardal.

Mae'r Gelli yn ffodus o ran bod ganddi gyd-destun economaidd cymharol gadarn heb lawer o adeiladau segur a gwerth masnachol digonol i'r stoc o adeiladau er mwyn annog a hwyluso prosesau cynnal a chadw da.

Mae'r maes gwerthu llyfrau yn cynnig llawer o hyblygrwydd o ran y mathau o ofod sy'n addas gan olygu y gall amrywiaeth o deipoleg adeiladu gael ei ailddefnyddio yn y dref. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o bob un o'r meini prawf niweidiol a restrir uchod ac mae'n bwysig sicrhau y caiff safonau uchel eu cynnal a'u hatgyfnerthu er mwyn cynnal yr amgylchedd o ansawdd uchel sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu nodweddion y dref a'i hatyniadau fel cyrchfan dwristiaeth yn ogystal â fel lle dymunol iawn i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Y mater amlycaf o blith y rhai sy'n cael effaith negyddol ar yr ardal gadwraeth yw effaith gronnol mân newidiadau a wneir i adeiladau treftadaeth, yn enwedig ffenestri a drysau, ond hefyd yn cynnwys gwteri a phibelli dŵr, cyrn a photiau simnai, muriau terfyn a rheiliau, deunyddiau toi a manylion pensaernïol. Mae ffenestri newydd a osodwyd mewn deunyddiau uPVC yn cynnwys amrywiaeth o arddulliau ac mae rhai yn debyg iawn i'r cynlluniau gwreiddiol, gan ymgorffori fframiau llithro.
Fodd bynnag, dim ond cysylltiad arwynebol iawn sydd gan rai â chymeriad y ffenestri pren gwreiddiol, gan fod ganddynt fesuriadau bras, dulliau agor ar ogwydd, a mowldinau a manylion lletchwith. Caiff llawer eu gosod yn agosach at arwyneb rhan uchaf yr adeilad na'r ffenestri gwreiddiol, gan golli dyfnder canfyddedig adeiledd yr adeilad a'r ymddangosiad cysgodol a chynnil dilynol.

Fel arfer, nid yw dysglau lloeren yn gweddu'n dda mewn cyd-destun treftadaeth ac weithiau maent wedi'u grwpio mewn clystyrau ac wedi'u lleoli mewn mannau anaddas.





*Gall clystyrau o ddysglau lloeren gael effaith gronnol ac andwyol ar y cyd-destun treftadaeth pan gânt eu gosod mewn mannau anaddas (chwith). Mae'r ffenestr uPVC uwchlaw blaen siop yr adeilad hwn sydd wedi'i restru'n lleol (dde) yn edrych fel ffenestr godi ar yr olwg gyntaf, ond nid oes ganddi gynildeb manylion na mowldinau'r ffenestr wreiddiol. Maent yn edrych yn arbennig o amhriodol pan fydd y cwarel uchaf wedi'i agor ar ogwydd, at ddibenion awyru. Mae'r ddysgl lloeren sy'n estyn allan eto braidd yn amlwg yn y strydlun.*

Ceir rhagor o fanylion am y materion hyn yn adran 13 o'r ddogfen hon.

## 9. Diffiniad o Ddiddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

Mae gan y Gelli Gandryll yr asedau penodol canlynol:

- Lleoliad trawiadol, ehangach mewn tirwedd amrywiol o ansawdd uchel, ar ffin ogleddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrth droed tarren ogleddol y Mynyddoedd Duon;
- Lleoliad lleol ar lan afon Gwy (isod dde) a nant Dulas mewn man strategol ar gyrion Dyffryn Gwy, llwybr cyswllt allweddol rhwng Lloegr a Chanolbarth Cymru;
- Hanes lliwgar pan gafodd ei sefydlu'n wreiddiol yn y cyfnod Normanaidd fel cadarnle a garsiwn amddiffynol;
- Castell y Gelli fel canolbwynt hanes a datblygiad y dref yn ogystal â'r tirnod gweledol amlycaf yn y dref (isod chwith);
- Archaeoleg cyfoethog o bosibl drwy'r cyfnod canoloesol cynnar hyd at ddatblygiadau trafnidiaeth a thechnolegol y 19eg ganrif;
- Cynllun tref ganoloesol sydd wedi goroesi gyda'r castell yn ganolbwynt;
- Olion ffisegol y muriau tref a'u heffaith ar gynllun y dref;
- Treflun manwl a grëwyd yn sgil effeithiau cyfunol cynllun strydoedd, topograffi, ffurf a maint amrywiol yr adeiladau, a'r holl fanylion bach, llawn cymeriad sy'n creu amgylchedd ffisegol cyfoethog;
- 145 o adeiladau rhestredig a dwy heneb gofrestredig;
- Nifer fawr o adeiladau a grwpiau o adeiladau eraill sy'n bwysig yn lleol, sy'n werthfawr i'r treflun ac y mae eu manylion gwreiddiol wedi goroesi;
- Cyfres o ofodau trefol penodol yn cynnwys Stryd Lydan, Stryd y Castell, a chraidd canol y dref o amgylch ardal y farchnad - Stryd y Farchnad, High Town, The Pavement a Lion Street;
- Deunyddiau adeiladu lleol, o'r Hen Dywodfaen Coch a brics lleol a, hyd at ddiwedd y 19eg ganrif, rendr calch; ceir rhannau hir o furiau terfyn o gerrig llanw hefyd, a rhai cerrig crynion a sets traddodiadol;
- Llawer o fanylion adeiladu sy'n cyfrannu at natur unigryw leol, fel blaenau siopau, gwaith haearn, ysgrifen arwyddion, ffenestri codi a drysau panelog, cyrn a photiau simnai a theils crib addurniadol;
- Hanes mwy diweddar o 'adsefydlu' yn dref llyfrau, gydag enw da yn rhyngwladol a ategir gan ŵyl llenyddiaeth a chelfyddydau flynyddol a rhaglen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn;
- Ffocws ar gyfer twristiaeth a hamdden yn yr ardal ehangach, sydd wedi cyflwyno buddiannau economaidd i'r dref ac wedi cyfrannu at adfer, atgyweirio a chynnal a chadw llawer o'r adeiladau treftadaeth yn y dref.





## 10. Crynodeb o'r Materion

Mae'r Gelli Gandryll yn dref fach gyda hanes mawr sydd wedi llwyddo i sicrhau hunaniaeth a rôl yn yr 21ain ganrif sy'n cyflwyno manteision economaidd ac incwm i'r dref, gan osgoi, i raddau helaeth, ffawd llawer o adeiladau hanesyddol - sef cael eu hesgeuluso a mynd yn segur gan arwain at golli manylion a gwerth treftadaeth. Mae'r swyddogaeth manwerthu, yn enwedig llyfrau, sydd wrth wraidd gweithgareddau'r dref, yn galluogi adeiladau i gael eu defnyddio'n hyblyg, sy'n golygu y gellir defnyddio hen warysau, siopau, tai ac adeiladau hamdden mewn modd cynhyrchiol yn y busnes. Mae'r hen dafarndai niferus a wasanaethai'r dref yn ei hanterth fel tref farchnad yn darparu stoc ategol o adeiladau sy'n cynnig bwyd, diod a llety i ychwanegu at y cyfleusterau twristiaeth, sydd hefyd yn elwa ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau a gynigir yn yr ardal ehangach, yn cynnwys cerdded, beicio, canŵio a marchogaeth. Ceir cysylltiad cynhenid rhwng swyn a mwynhad y dref â'i nodweddion ffisegol a'i hunaniaeth sydd yn eu tro yn rhan gyfannol o'i hanes a'r adeiladau hanesyddol sy'n llunio'r lleoliad ar gyfer yr ardal gadwraeth a'r dref yn gyffredinol. Felly, mae pob rheswm pam y dylai fod o fantais i drigolion, perchenogion busnes ac ymwelwyr gynnal gwerth ac ansawdd treftadaeth y dref a'i hadeiladau.

Ni chafwyd llawer o ddatblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth, yn bennaf oherwydd y prinder tir a safleoedd mawr addas ar gyfer datblygu ac argaeledd adeiladau presennol i fodloni'r gofynion llety ar gyfer y dref. Mae'r datblygiadau prin a welwyd - cynlluniau tai mewnlenwi bach yn gyffredinol - wedi bod ar safleoedd na chawsant effaith uniongyrchol iawn ar ansawdd ac amgylchedd cyffredinol yr ardal gadwraeth ac sydd wedi darparu tai ychwanegol yn yr ardal, ar dir llwyd.

Mae'r ardal gadwraeth bresennol yn cynnwys nifer o asedau ffisegol gwych, fel yr adeiladau rhestredig, nifer fawr o adeiladau llawn nodweddion sy'n bwysig yn lleol, grwpiau cydlynol, treflun gymhleth, topograffi amrywiol a llu o fanylion bach ond difyr, fel y muriau terfyn carreg a llawer o flaenau siopau da.

Caiff rhywfaint o fanylion a nodweddion treftadaeth - ac ansawdd cynlluniau cyffredinol - eu colli pan gaiff ffenestri a drysau uPVC eu gosod yn lle rhai pren gwreiddiol a phan gaiff cyrn a photiau simnai, nwyddau dŵr glaw gwreiddiol (neu rai haearn bwrw a osodwyd yn eu lle) eu colli, ac mewn gwaith pwyntio neu waith atgyweirio arall sy'n fras neu wedi'i wneud yn wael. Prin yw'r enghreifftiau o ddeunyddiau palmant gwreiddiol neu rai newydd o ansawdd da ar gyfer ffyrdd a llwybrau, ond mae muriau terfyn a rheiliau wedi goroesi i raddau helaeth drwy'r holl ardal. Mae'r gofodau agored yn yr ardal gadwraeth yn bwysig ac yn gosod y lleoliad ar gyfer y treflun trefol dwys. Mae'r coed yn y gofodau hyn hefyd yn bwysig.

## 11. Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

Gall newidiadau modern amhriodol effeithio'n andwyol ar gynildeb, cydbwysedd a mesuriadau rhannau uchaf adeiladau a gallant hefyd fod yn niweidiol yn ffisegol i adeiledd adeiladau hanesyddol. Ymysg y nodweddion gwreiddiol pwysig y mae newidiadau o'r fath yn eu bygwth mae blaenau siopau, ffenestri codi pren, drysau a fframiau drysau, rheiliau llaw haearn bwrw, rheiliau, nwyddau dŵr glaw a photiau a chyrn simnai. Felly, mae'n bwysig bod pob perchennog a deiliad eiddo yn mabwysiadu'r dull cywir o atgyweirio'r nodweddion hyn a gosod rhai newydd yn eu lle.

Mae'n allwedol deall cadwraeth effeithiol yr amgylchedd adeiledig ac effaith unrhyw newidiadau. Ni ddylid gwneud gwaith heb sefydlu'r canlynol:

- Pam y mae'n angenrheidiol;
- Beth mae'n ceisio ei gyflawni;
- P'un a all arwain at unrhyw ganlyniadau andwyol.

Mae hyn yn cynnwys asesu pob safle ac adeilad o ran ei gyfraniad at nodweddion ac edrychiad yr ardal gadwraeth, ei werth hanesyddol, dull adeiladu a pherfformiad technegol, yn cynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i gynnal ei adeiledd. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfëwr neu gynllunydd adeiladu sydd â phrofiad o weithio gydag amgylcheddau hanesyddol. Dylai hyd yn oed y gweithrediadau symlaf fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae adeilad penodol yn 'gweithio', ynddo'i hun ac mewn perthynas â'i leoliad. Dylai unrhyw waith a wneir i adeiladau mwy ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol fod yn seiliedig ar gynllun cadwraeth yr ymchwiliwyd iddo'n gynhwysfawr. Nid yw dynodiad fel ardal gadwraeth yn atal newidiadau rhag cael eu gwneud ond mae'n llunio fframwaith y gall y dref ei ddatblygu heb golli'r nodweddion sy'n ei gwneud yn arbennig.

**Cynnal a chadw**
Cynnal a chadw adeilad yn rheolaidd yw'r ffordd orau a mwyaf darbodus o gynnal ei adeiledd. Cyfrifoldeb perchenogion a deiliaid yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad sy'n derbyn gofal yn cadw ei werth gan osgoi'r angen am waith atgyweirio mawr. Gwarchod adeilad rhag effaith dŵr a lleithder yn treiddio yw'r peth pwysicaf. Dylid rhoi blaenoriaeth i atgyweirio toeon, gwteri a phibelli dŵr. Gallai perchenogion adeiladau mawr ystyried llunio cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

**Gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd**
Dylai perchenogion a deiliaid adeiladau sicrhau bod y tasgau canlynol yn cael eu cyflawni'n rheolaidd;

- ***Clirio dail*** yn enwedig ar ôl yr hydref gan ganolbwyntio'n benodol ar gafnau a nwyddau dŵr glaw. Yn ystod cyfnod o law trwm yw'r adeg gorau i nodi diffygion.
- ***Rheoli twf planhigion*** a all gyflymu dadfeiliad ac achosi difrod strwythurol weithiau. Dylid lladd eiddew drwy ei dorri yn agos at y llawr a gadael iddo wywo cyn ceisio tynnu ei wreiddiau o'r mur.
- ***Cael gwared ar faw adar*** sy'n cynnwys halenau niweidiol. Fodd bynnag, mae problemau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig a dylid cael cwmni arbenigol i gael gwared ar symiau mawr o faw.
- ***Chwilio am ddadfeiliad oherwydd ymosodiadau gan bryfaid a ffwng*** a all gael ei achosi gan leithder yn treiddio ac awyru gwael.
- ***Gwirio lefelau awyru*** er mwyn sicrhau nad yw unrhyw rwyllau sy'n awyru'r gofodau o dan loriau wedi cael eu rhwystro. Gall diffyg awyru arwain at gyflyrau lle gall dadfeiliad ffyngaidd gydio.
- ***Clirio eira*** a all gronni mewn gwteri ac ardaloedd eraill, gan adael i wlybaniaeth lenwi seliau plwm a chyrsiau atal lleithder.

**Diben**
Dylai gwaith cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen i wneud gwaith atgyweirio mawr i'r holl adeiladau a dylid gwerthuso'r opsiwn o atgyweirio nodweddion gwreiddiol gyntaf bob amser. Fodd bynnag, yn y pen draw, bydd rhai elfennau yn cyrraedd diwedd eu hoes yn y pen draw, a bydd angen ystyried gosod elfennau newydd yn eu lle gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a dulliau atgyweirio a brofwyd. Y dewis amgen yw colli gwerth hanesyddol adeiladau unigol a dirywiad graddol diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Diben atgyweirio unrhyw adeiladau yn yr ardal gadwraeth yw atal, neu o leiaf arafu, y broses o ddirywio heb ddifrodi neu newid nodweddion sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd hanesyddol / pensaernïol.





*Gall diffyg gwaith cynnal a chadw parhaus arwain at ddirywiad yn adeiledd yr adeilad, er enghraifft, os oes gwteri ar goll neu os na chaiff toeon sy'n gollwng eu hatgyweirio, sy'n golygu bod dŵr yn treiddio i rannau o'r adeilad sydd dan fygythiad.*

**Toeon**
Toeon ardal drefol sy'n ffurfio'r nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac mae'n rhan bwysig iawn o'i hunaniaeth. Y cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a chasgliad sy'n creu'r 'het', sy'n eistedd uwchlaw'r adeilad ac sy'n hanfodol i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion yn weledol ar lefel y stryd bob amser, mae topograffi'r Gelli yn caniatáu golygfeydd tuag at, ar draws a thros y toeon o rannau gwahanol o'r ardal. Mae'r to, yn ôl ei natur, yn rhan hanfodol o amddiffynfa adeilad rhag y tywydd ac, fel y cyfryw, dyma un o'r ardaloedd pwysicaf i ganolbwyntio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arni. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd mynych i ailosod a gwella fel rhan o ofal parhaus adeiladau.

**Gorchuddion Toeon**
Teils cerrig a geir ar rai eiddo hynach, ond prif orchudd toeon adeiladau traddodiadol yn y Gelli yw llechi Cymreig naturiol, y dylid eu defnyddio ar gyfer unrhyw waith atgyweirio neu ddisodli. Dylai cribau, bargodion a manylion eraill gael eu gosod mewn mortar calch naturiol. Ni ddylid defnyddio clipiau plastig na thrimiau eraill o'r fath. Nid yw'n briodol defnyddio teils concrid a chlai ar adeiladau treftadaeth.
Heblaw am effaith weledol andwyol yr edrychiad mwy 'garw', gallant hefyd bwyso llawer mwy na'r deunyddiau llechi gwreiddiol sy'n arwain at broblemau yn y strwythur cynnal pren. Mae llechi naturiol wedi'u mewnforio sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu gruglas y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-effeithiol ond mae'n bwysig cael y llechi o chwarel ag enw da er mwyn osgoi problemau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chydnawsedd pan fydd y llechi'n cael eu treulio gan y tywydd. Er ei bod weithiau'n anodd gwahaniaethu rhwng llechi artiffisial a deunyddiau naturiol pan fyddant yn newydd, maent yn treulio yn y tywydd mewn ffordd wahanol a, thros amser, byddant yn edrych yn wahanol i'r cynnyrch go iawn. Os caiff y to ei inswleiddio, dylid ei osod ar lefel y nenfwd, neu rhwng y trawstiau, os yw'r awyru yn ddigonol (drwy fylchau yn y bondo, nid tyllau aer a osodir gan berchennog i oleddf y to). Bydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to gan arwain at broblemau posibl mewn manylion yn y bondo a lle mae'n cyffinio ag adeiladau eraill.

Fodd bynnag, gall cyflwyno lefelau uchel o inswleiddio i adeiladau hŷn achosi anwedd a dirywiad dilynol.

**Ffenestri to a dormeri**
Pan gaiff gofodau croglofft eu trawsnewid a bod angen ffenestri to neu ddormeri, dim ond ar oleddfau cefn y dylid eu gosod gan eu bod yn torri ar draws llinell barhaus goleddf y to ar ochr y stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd, lle nad oedd dormeri yn bodoli o'r blaen, lle y bo'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a maint a chydbwysedd ffurf a chasgliad yr adeilad. Lle mae dormeri gwreiddiol yn bodoli, dylid hefyd osgoi unrhyw newidiadau i'r mesuriadau a'r maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern, gwydr dwbl o ffenestri to haearn bwrw cynnar (i'r mesuriadau a'r maint cywir, ynghyd â bar gwydr fertigol) er mwyn cadw nodweddion y to cymaint â phosibl. Mae gan lawer o weithgynhyrchwyr ffenestri Ffenestri To Cadwraeth, sydd wedi'u cynllunio i eistedd ar arwyneb y to, yn hytrach na bargodi'n sylweddol uwchlaw iddo. Gall y rhain fod yn llawer llai amlwg ac, o'u cyfuno â deunyddiau addas, gall y lliwiau a'r manylion gyd-fynd yn gyfforddus mewn cyd-destun treftadaeth.

**Simnai a Photiau Simnai**
Mae cyrn a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb ac amrywiaeth y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simnai a'u hatgyweirio gan osod potiau clai newydd yn ôl yr angen. Gall fod angen i beiriannydd strwythurol ymchwilio i sefydlogrwydd rhai cyrn simnai tal. Pan fydd corn gwreiddiol wedi'i wneud yn fyrrach (yn aml wedi'i gapio gyda slabiau concrid) yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Lle na cheir unrhyw dystiolaeth bod patrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw'r arddull yn syml, ond bob amser gyda chyrsiau corbelog yn bargodi ar y pen. Os yw'n bosibl, dylid osgoi brics concrid ac ni ddylai cyrn simnai gael eu rendro. Dylai seliau plwm (yr uniad rhwng yr arwyneb fertigol a gorchudd y to) ar y cyswllt rhwng y simnai a'r to fod yn risiog yn y ffordd draddodiadol gan ddilyn manyleb y Gymdeithas Plwm Dalennog.




*Mae simnai yn rhan bwysig o linell toeon strydlun ond mae'r potiau simneiau yn elfen bwysig iawn o'r proffil cyffredinol ac mae'n effeithio'n andwyol ar nodweddion cyffredinol yr ardal os byddant ar goll neu wedi'u difrodi (chwith). Nid yw gwteri plastig mor gadarn â haearn bwrw neu alwminiwm a gallant ystumio (dde) gan arwain at ddraeniad gwael a all achosi difrod i adeiledd yr adeilad*

**Gwteri a phibelli dŵr**
Dylid ystyried defnyddio gwteri haearn bwrw traddodiadol (neu alwminiwm bwrw) wrth adfer adeiladau treftadaeth. Dylid defnyddio gwteri hanner crwn syml bob amser ar adeiladau cynharach. Mae gwteri hanner crwn a phatrwm pigfain yn addas ar gyfer adeiladau diweddarach. Nid yw deunyddiau uPVC rhatach mor gadarn â haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac maent yn fwy tebygol o gael eu difrodi gan y tywydd, yn ogystal ag ystumio, gan effeithio weithiau ar raddiant a chwymp naturiol gwteri gan arwain at risg o ddŵr yn gollwng ac yn treiddio i adeiledd yr adeilad.

**Ffenestri a gwydro**
Ffenestri yw 'llygaid' adeilad a chanolbwynt ei nodweddion. Mae ffenestri codi llithro dwbl yn nodweddiadol o'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn y dref a adeiladwyd cyn dechrau'r 20fed ganrif. Mae newidiadau i fesuriadau agoriadau ffenestri a / neu'r ffenestri eu hunain yn anochel yn cael effaith andwyol ar ffasâd yr adeilad yn gyffredinol. Dylid osgoi ymgorffori tyllau awyr araf, oherwydd eu heffaith andwyol ar y nodweddion cyffredinol.

Dylid cadw ffenestri codi gwreiddiol bob amser a'u hatgyweirio, oni fydd hynny'n hollol anymarferol. Anaml y bydd angen gosod rhai newydd yn eu lle. Mae dirywiad fel arfer i'w weld ar rannau isaf y ffenestr lle gellir asio'r pren newydd i mewn. Mae'r gwydr ffenestr neu silindr gwreiddiol yn deneuach gydag arwyneb mwy anwastad o gymharu â gwydr nofiol modern gan roi adlewyrchiadau mwy cynnil, a lle mae wedi goroesi, dylid ei gadw bob amser. Mae'n debygol y bydd angen pwysau ffenestr trymach ar wydr modern trymach er mwyn gwrthbwyso'r ffenestr. Pan fydd yn rhaid gosod ffenestr newydd, yn hytrach na'i hatgyweirio, dylai'r ffenestr newydd fod yn un bren a dylai gyd-fynd yn union â'r ffenestr wreiddiol. Dylid cadw silffiau ffenestr carreg gwreiddiol lle y bo'n bosibl. Os bydd y silff ffenestr garreg wedi'i difrodi fel nad oes modd ei thrwsio, silff ffenestr o garreg adferedig yw'r dewis gorau, neu silff ffenestr goncrid o'r un mesuriadau.





*Nid yw mesuriadau'r ffenestri newydd (ochr chwith y llun ar y chwith) yn cyd-fynd yn hanesyddol â ffenestri codi pren yr annedd ar ochr chwith y llun. Nid yw cynlluniau amgen fel y rhai yn y llun ar y dde yn cyd-fynd â ffasâd yr adeilad.*

**Mynedfeydd a drysau**
Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a gwydro hefyd yn berthnasol i fynedfeydd a drysau. Lle y bo'n bosibl, dylid cadw ac atgyweirio drysau pren traddodiadol. Pan fo angen, dylai drysau newydd ddilyn arddull y drws gwreiddiol os yw'n hysbys, neu dylai gyd-fynd â'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Er bod patrymau drysau traddodiadol, ar y cyfan, yn fwy amrywiol na ffenestri, mae rhai egwyddorion cyffredinol yn berthnasol. Nid oedd drysau ffrynt wedi'u gwydro fel arfer, pan oedd ganddynt ffenestri linter uwchlaw, er roedd sawl eiddo Fictoraidd ac Edwardaidd wedi gosod gwydr barugog a / neu addurnedig yn lle'r paneli uchaf. Rhaid cadw, atgyweirio a chynnal a chadw ffenestri linter, fframiau drysau a nodweddion ategol eraill bob amser. Mae cynllun ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig a dylai gyd-fynd â chynllun ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi handlenni lifer allanol.

Dylai **portshys a chanopïau** adlewyrchu traddodiadau lleol o symlrwydd a defnyddioldeb, gyda chanopïau gwastad, cromfachog neu doeon croes ar ategion.

**Mynediad i bobl anabl**
Mae angen darparu mynediad i bobl anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaewth hygyrchedd. Mae bob amser yn bwysig sicrhau y caiff y rheoliadau a'r canllawiau ategol yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac yn Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu eu dehongli'n gywir ar gyfer Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle y gwneir gwaith o'r math hwn, dylid gwneud hynny mewn modd sensitif a gan ystyried egwyddorion cyffredinol mesuriadau, cynllun, deunyddiau a chrefftwaith sy'n berthnasol i'r adeilad cyfan. Argymhellir y dylid ymgynghori ar gam cynnar ag adran rheoli adeiladau Cyngor Sir Penfro.

**Lefel y Stryd**
Mae ansawdd yr adeiladau ar lefel y stryd yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd masnachol lle mae adeiladau wedi'u hadeiladu'n dynn ar gefn y palmant yn aml ac mae'r cyfuniad o flaenau siopau, canopïau a ffasgiâu yn creu prif ddelwedd weledol nodweddion ardal.

**Pwyntio a gorffeniadau muriau**
Mae'n well defnyddio morter calch yn hytrach na morter sment caled ar atgyweiriadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylai gwaith pwyntio cerrig a brics, ar atgyweiriadau ac adeiladau newydd, ddilyn manylion traddodiadol, gydag uniadau gwastad, gwrthsoddedig neu ddwbl, gan sicrhau nad yw'r morter yn bargodi dros y brics neu'r cerrig o'i amgylch. Dylid defnyddio'r un deunydd i ddisodli morter calch presennol bob amser a dylid ceisio cyngor ar gyfansoddiad neu dechnegau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod. Mae'n dderbyniol defnyddio rendr yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae'n well cael gorffeniad llyfn - dylid defnyddio rendr calch ar gyfer atgyweiriadau neu estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylid gorffen rendr sment mewn lliw cerrig gwyn, oddi ar wyn, llwydwyn neu lwyd.

**Atgyweirio ac ailosod blaenau siopau traddodiadol**
Mae'r blaen siop traddodiadol yn ffurfio 'ffrâm' ar gyfer yr arddangosfa ffenestri, gan gynnwys y ffascia uchod, y rhan o dan y ffenestr isod a'r pilastrau bob ochr. Dylai mesuriadau pob rhan greu cyfansoddiad cytbwys. Gall y fynedfa i'r adeilad fod yn y canol neu ar un ochr yn dibynnu ar led yr eiddo. Dylid cadw ac atgyweirio stepiau addurnedig mewn pyrth gwrthosodedig. Dylid gorffen y ffasgia ar y brig gyda mowldiad cornis gyda chynhalbost neu gornis ar bob ochr, sy'n gweithredu fel pen colofnau i'r pilastrau. Bydd y defnydd o deils ar y rhan o dan y ffenestri yn helpu i wrthsefyll dŵr ac yn rhoi manylyn traddodiadol.

Dylid cadw blaenau siopau traddodiadol sy'n bodoli, neu elfennau sydd wedi goroesi, a'u hatgyweirio lle bynnag y bo'n bosibl. Gellir cuddio nodweddion gwreiddiol o dan arwynebau diweddarach. Pan fydd blaenau siopau wedi'u colli'n llwyr ond bod tystiolaeth ffotograffig o'u cynllun gwreiddiol yn bodoli, bydd atgynhyrchiad manwl yn hynod briodol. Lle nad oes tystiolaeth o'r gwreiddiol yn bodoli, gellid defnyddio cynllun modern sy'n dilyn egwyddorion y 'fframio' gwreiddiol. Pan fydd adeiladau ar wahân wedi'u cyfuno i greu un uned, dylai pob adeilad gael ei ffryntiad unigryw ei hun er mwyn cynnal rhythm a mesuriadau'r strydlun. Ni ddylai'r un ffasgia gario dros y ddau ffasâd. Dylid isrannu'r ffenestr yn fertigol er mwyn cynnal mesuriadau nodweddiadol yr adeilad a'r cyd-destun.

Mae Canllaw Cynllun Blaenau Siopau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhoi canllawiau manwl ar y mater, gyda'r egwyddorion allweddol canlynol ar gyfer blaenau siopau newydd ac wedi'u hadnewyddu:

- Parchu nodweddion yr adeilad presennol a'r adeiladau gerllaw;
- Atgyfnerthu nodweddion lleol yr ardal a chyfrannu at ymdeimlad o le neu greu ymdeimlad o le;
- Gweithio tuag at wella ansawdd cyffredinol y strydlun;
- Hunaniaeth glir, nid cymysgedd o arddulliau;
- Cadw nodweddion hanesyddol presennol lle y bo'n bosibl - hanfodol os yw'r adeilad yn rhestredig;
- Sicrhau bod blaenau siopau gerllaw ar wahân yn weledol er mwyn iddynt gysylltu â phob adeilad unigol;
- Cynnal mesuriadau presennol er mwyn sicrhau y diffinnir pob llawr/elfen yn glir;

- Defnyddio cymesuredd a rhythm i gysylltu blaenau siopau â'r lloriau uwchlaw, oni fydd pwyslais llorweddol cryf yn bodoli i alluogi patrwm gwahanol;
- Diffinio'r fynedfa i'r siop yn glir a sicrhau ei bod yn hygyrch;
- Integreiddio arwyddion, goleuadau a mesurau diogelwch i gysyniad cyffredinol y cynllun;
- Mabwysiadu 'arddulliau tŷ' y cwmni i gyd-fynd â nodweddion unigol yr ardal a'r adeilad, gan osgoi ailadrodd mympwyol a logos wedi'u hymestyn;
- Defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel a chrefftwyr medrus;
- Pan fydd blaen siop traddodiadol o ansawdd wedi goroesi, dylid ei adnewyddu oni ellir cyfiawnhau'n llwyr y byddai gosod un newydd yn ddewis gwell.

**Ffasgiâu, arwyddion, canopïau a bleinds**
Mae dimensiynau a mesuriadau'r ffasgia yn elfen hanfodol o nodweddion ac edrychiad cyffredinol blaen y siop. Yn gyffredinol, ni ddylai'r astell dywydd fod yn ddyfnach na 400mm a dylid ei chadw ymhell o dan lefel y ffenestri ar loriau uwch neu faeau sy'n bargodi. Mae'n well defnyddio llythrennau wedi'u paentio â llaw neu wedi'u gosod yn unigol mewn arddulliau syml ac, fel arfer, ni ddylent fod yn fwy na 225mm o uchder. Dylid osgoi arwyddion persbecs, plastig neu fath blwch. Gall arwyddion bargodol sydd wedi'u cynllunio a'u saernïo'n dda fywiogi'r strydlun, er bod symbolau fel arfer yn fwy effeithiol nag ysgrifen. Dylid annog bleinds a chanopïau codadwy, heb ysgrifen arnynt, a dylent fod o leiaf 2.1 metr uwchlaw'r ddaear.

**Goleuo**
Nid anogir goleuo adeiladau fel arfer, ac anaml y caiff ei ganiatáu, yn enwedig yn dilyn cais llwyddiannus diweddar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am statws Awyr Dywyll, sy'n golygu bod angen rheoli lefelau goleuadau cefndir yn ofalus ym mhob rhan o'r Parc Cenedlaethol.

**Lliw**
Mae lliw hefyd yn rhan bwysig o nodweddion cyffredinol y dref. Dylai rendr fel arfer fod yn wyn, yn llwydwyn neu'n llwyd a dylai pren wedi'i baentio fod yn wyn neu mae'n dderbyniol defnyddio lliwiau 'cadwraeth' modern; mae'r defnydd o ddu, lliwiau tywyll eraill neu staeniau tywyll ar ffenestri yn tueddu i bylu effaith israniadau fel bariau gwydr; dylai fod mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â blaenau siopau ond nid anogir y defnydd o liwiau llachar, croes a dylid osgoi arwynebau adlewyrchol, sgleiniog hefyd.





*Dylid osgoi lliwiau rhy lachar a chroes ar gyfer rendr wedi'i baentio neu ar gyfer cynlluniau blaenau siopau (chwith a dde uchod)*

**Muriau terfyn a rheiliau**
Er bod ardaloedd manwerthu canol trefi yn cynnwys adeiladau sydd fel arfer wedi'u hadeiladu'n dynn ar gefn y palmant, mae'r muriau terfyn a'r rheiliau yn yr ardal gadwraeth yn gyffredinol yn arbennig o bwysig am eu cyfraniad i nodweddion cyffredinol ac ansawdd y strydlun. Mae angen rhoi sylw arbennig i sicrhau na chaiff muriau terfyn a rheiliau eu tynnu er mwyn creu mannau parcio ar leiniau.
Fel arfer, dylid paentio gwaith haearn yn ddu, gyda gwyrdd tywyll neu borffor tywyll yn ddewisiadau amgen derbyniol.

Fel arfer, bydd ystod gyfyngedig o liwiau yn fwy llwyddiannus ac yn creu edrychiad mwy cydlynus a chynnil yn gyffredinol.

**Datblygiadau newydd o fewn ardaloedd treftadaeth**
Yn gyffredinol, pan gynigir datblygiadau a / neu estyniadau newydd, mae'n bwysig eu bod yn seiliedig ar egwyddorion cadarn cynllunio trefol, yn ogystal â manylion cyseiniol mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol. Mae'n arbennig o bwysig osgoi atebion safonol, yn seiliedig ar fathau anhyblyg a chyfyngedig o dai (yn achos adeiladwr cenedlaethol neu ranbarthol) neu atebion masnachol ansensitif, â manylion a mesuriadau gwael (yn achos blaenau siopau ac arwyddion). Dylai'r canlynol fod yn wir am bob math o ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth:

- Cadw ac atgyfnerthu 'natur nodedig lleol' a nodweddion y dref, yn cynnwys patrymau strydoedd, mannau agored a choed, ffiniau lleiniau a thriniaethau ffiniau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriad datblygiadau presennol;
- Ymateb i rythm a phwyntiau cymal penodol israniadau'r strydlun a'r adeiladau unigol o ran baeau ac agoriadau sy'n ymyrryd ar y ffasâd;
- Atgyfnerthu nodweddion a graen nodedig yr ardal â nodweddion benodol o'r dref, drwy ddealltwriaeth anffurfiol o'i ffurfiau a'i harddulliau, nodweddion a deunyddiau adeiladu. Dylid osgoi ffurfiau clytwaith o ddatblygiadau ac ail-greu nodweddion hanesyddol mewn modd arwynebol mewn adeiladau newydd;
- Parchu maint a chasgliad adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol nad yw datblygiadau newydd o feintiau gwahanol i adeiladau presennol o ran uchder, lefelau lloriau, maint ffenestri a drysau, casgliadau cyffredinol a thoeon;
- Cynnal golygfeydd a fistâu allweddol i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth;
- Lle y bo'n bosibl, lleihau effaith weledol cerbydau wedi parcio a'r llefydd parcio a ddarperir ar y strydlun a lleoliad strydoedd ac adeiladau hanesyddol yn y dirwedd.

Lle y caiff datblygiadau newydd eu cynnig ar gyfer ardaloedd sydd gerllaw'r ardal gadwraeth, yn hytrach nag ynddi, bydd cyn bwysiced cymryd gofal ac ystyried effaith y cynllun arfaethedig ar nodweddion y dref yn gyffredinol. Lle y bo'n briodol, dylai pob math o ddatblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw penodol i'r canlynol:

- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn dilyn yr un maint, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu nodweddion pensaernïol nodedig y cyd-destun uniongyrchol;
- Ystyried effaith datblygiadau newydd ar olygfeydd a fistâu allweddol;
- Sicrhau bod cynlluniau ffordd a threfniadau parcio newydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar nodweddion strydlun yr ardal leol.

Gall fod yn briodol cael cynlluniau cyfoes, o ansawdd da yn yr ardal gadwraeth, ond dylid ceisio osgoi datblygiadau anghyson ac ansawdd isel.

Mae **safonau cynllunio priffyrdd** yn benderfynyddion pwysig iawn o ragoriaeth ym maes dylunio a sensitifrwydd mewn ardaloedd hanesyddol. Anogir yr Awdurdod Priffyrdd i barhau i weithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a Chyngor y Dref i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf ystyriol o'r safonau dylunio, i fod yn hyblyg pan fo'n briodol ac i ddefnyddio'r deunyddiau a'r gorffeniadau mwyaf priodol pan fo adnoddau ariannol yn caniatáu.

**Rheoli a gorfodi**
Mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol bwerau cynllunio ar hyn o bryd i unioni materion fel cyflwr gwael tir ac adeiladau, hysbysiadau brys o waith ac atgyweirio ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a strwythurau nad ydynt yn rhestredig. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mân waith adeiladu ar eiddo preswyl, gyda rhai cyfyngiadau mewn ardaloedd cadwraeth. Drwy ddefnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4, gellir cyfyngu ymhellach ar hawliau datblygu a ganiateir, ar gyfer datblygiadau preswyl. Gellir ystyried hyn pan fetho popeth arall a gall fod yn well codi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor cadarhaol.

## 12. Manylion Cyswllt

Y swyddog cyswllt yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw Rosie Burton, Uwch Swyddog Treftadaeth, 01874 620412 neu rosie.burton@breconbeacons.org.

## 15. Llyfryddiaeth

A History of the Hay: The story of Hay-on-Wye, Geoffrey Fairs, Phillimore 1972
Annals of a Parish, Geoffrey Fairs, 1994
The Book of Hay, Kate Clarke, Logaston Press 2000
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cynllun Datblygu Lleol, Asesiad y Gelli, Mai 2009 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo 2007-2022, Strategaeth Ofodol, y Gelli Gandryll
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Landscape Character Assesment, Awst 2012
Historic Landscape Characterisation, The Middle Wye Valley, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, The Buildings of Wales, Richard Haslam, Penguin Books Ltd, 1979
Understanding Place, Guidance on conservation area appraisals, English Heritage
Understanding Place, Guidance on the management of conservation areas, English Heritage